

Rhaglen Gyflawn



**Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee**

Cyfarfod

IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO Y GOGLEDD

Dyddiad ac Amser

10:00yb, DYDD IAU, 4ydd MEHEFIN 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

(am mynediad cyhoeddus cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

Sera Jane Whitley

serajanehitley@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD 27/05/2026)

IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CBC Y GOGLEDD

Aelodau Etholedig

Cyng. Gareth Jones
Cyng. Carol Holliday
Cyng. Andrew Parkhurst
Cyng. Paul Rogers
Cyng. Ioan Thomas
Cyng. Geraint Bebb

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn

Aelodau Lleyg

Nigel Rudd
William Parry
TBC

Aelodau Etholedig (Dirprwyedig)

Cyng. Paul Luckock
Cyng. Bobby Feeley
Cyng. Jason Shallcross
Cyng. Trevor Bates
Cyng. Richard Glyn Roberts
Cyng. Keith Roberts

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddogion yn bresennol

Alwen Williams
Mark Watkins
Helen Edwards
Dewi Morgan
David Hole
Sian Pugh
Luned Fôn Jones

Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd
Swyddog Monitro
Dirprwy Swyddog Monitro
Prif Swyddog Cyllid
Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC
Pennaeth Cynorthwyol Cyllid, Cyngor Gwynedd
Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd

RHAGLEN

- 1. YMDDIHEURIADAU**
I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.
- 2. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27**
I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026/27.
- 3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27**
I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2026/27.
- 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.
- 5. MATERION BRYD**
Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.
- 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 5 - 12
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2025 fel rhai cywir.
- 7. CYLCH GORCHWYL A ROL YR IS-BWYLLGOR LLWYODRAETHU AC ARCHWILIO**
Mark Watkins, Swyddog Monitro i gyflwyno.
- 8. BLAENGYNLLUN GWAITH YR IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2026/27** 13 - 22
Mark Watkins, Swyddog Monitro a Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) i gyflwyno'r adroddiad.
- 9. STRATEGAETH RHEOLI RISG** 23 - 40
Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) i gyflwyno'r adroddiad.
- 10. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26** 41 - 48
Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC) a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi i gyflwyno'r adroddiad.
- 11. POLISI CANMOLIAETHAU, SYLWADAU A CHWYNION** 49 - 62
Alwen Williams, Prif Weithredwr i gyflwyno'r adroddiad.
- 12. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2025/26** 63 - 81
Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.
- 13. CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD - CYNLLUN ARCHWILIO ALLANOL 2026** 82 - 107

Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid i gyflwyno'r adroddiad.

IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CBC GOGLEDD CYMRU 09/12/25

Aelodau Etholedig: Cyngorydd Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Cyngorydd Andrew Parkhurst (Cyngor Sir y Fflint), Cyngorydd Paul Rogers (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Cyngorydd Ioan Thomas (Cyngor Gwynedd), a Cyngorydd Geraint Bebb (Cyngor Sir Ynys Môn).

Aelodau Lleyg: Nigel Rudd (Cadeirydd).

Aelodau Etholedig (Dirprwyedig): Cyngorydd Bobby Feeley (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC), Dewi A. Morgan (Pennaeth Cyllid – Cyngor Gwynedd), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio - Cyngor Gwynedd), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro CBC), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2025/26

Penderfynwyd gohirio'r penodiad hyd nes y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd ethol Nigel Rudd yn Gadeirydd y cyfarfod hwn.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2025/26

Penderfynwyd gohirio'r penodiad hyd nes y cyfarfod nesaf.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gyngorydd Carol Holliday (Cyngor Sir Ddinbych), Carys Edwards (Aelod Lleyg), a Sian Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid - Cyngor Gwynedd).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Croesawodd Prif Weithredwr y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) yr holl Aelodau i'r cyfarfod gyntaf yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CBC Gogledd Cymru, a chyflwynwyd cyd-destun am y CBC.

Gofynnwyd am gadarnhad beth yw cynnwys cworwm yn yr Is-bwyllgor hwn, gan ofyn a yw'n bosib dirprwyo. Eglurodd y Swyddog Monitro nad yw hyn yn bosib, gan fod y Cylch

Gorchwyl wedi gosod cworwm uchel. Cadarnhawyd bod un aelod o bob awdurdod ac un aelod lleyg yn bresennol heddiw ac o ganlyniad fod cworwm.

Cyflwynwyd y swyddogion ynghyd a'i rolau er mwyn rhoi cefndir a chyd-destun yr Is-bwyllgor.

6. BLAENGYNLLUN GWAITH YR IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro).

PENDERFYNWYD:

Nid oedd penderfyniad gan nad oedd cworwm.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod y Blaengynllun Gwaith yn darparu'r rhaglen waith, sy'n caniatáu i'r Is-bwyllgor gyflawni ei rôl statudol fel y'i nodir yn Rheoliadau Sefydlu 2021. Eglurwyd mai mater i'r Aelodau a'r Cadeirydd yw nodi pa adroddiadau y maent am eu gweld ger bron yr Is-bwyllgor ac unrhyw ofynion hyfforddi y byddant eu hangen. Bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y Blaengynllun Gwaith, a fydd yn ddogfen fyw a chaiff ei gylchredeg yn rheolaidd i'r Aelodau.

Cadarnhawyd bod dyddiadau cyfarfodydd y CBC ar gyfer 2025/26 yn y calendr tan fis Mai 2026. Nodwyd y bydd calendr terfynol newydd yn cael ei ddatblygu ddechrau'r flwyddyn nesaf. Holwyd os oes dyddiadau cyfarfodydd Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei gyflwyno. Mynegwyd bod dyddiad ar gyfer mis Ionawr er mwyn ystyried y Gyllideb cyn iddo gael ei gyflwyno i'r CBC ar 23 Ionawr.

Cadarnhawyd y bydd cyfarfodydd yr Is-bwyllgorau yn cael eu hamserlennu o gwmpas y Blaengynllun Gwaith, er mwyn caniatáu i waith yr Is-bwyllgor fwydo'n briodol i'r CBC. Nodwyd y byddai dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer diwedd 2025/26 yn ddibynol ar gapasiti adnoddau a gofynion yr eitemau fydd angen eu cyflwyno i'r Is-bwyllgor.

Amlygwyd pwysigrwydd rhannu dyddiadau yn amserol ar gyfer cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, o ystyried y gofynion sydd arnynt yn eu hawdurdodau priodol, ac er mwyn sicrhau cworwm. Cadarnhawyd y byddai yn cael eu cylchredeg cyn gynted â phosib.

Mynegwyd pryderon am brinder eitemau ar y Blaengynllun Gwaith, yn enwedig o ystyried bod y Cylch Gorchwyl yn amlygu eitemau y dylid eu cynnwys. Ymatebwyd gan esbonio fod y Blaengynllun yn parhau i gael ei ddatblygu wrth weithio ochor yn ochor ag aelodau er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol yr Is-bwyllgor hwn. Ategwyd yr angen i ystyried capasiti ac yr anodau sydd ar gael ei wneud y gwaith yn ogystal.

Cynigwyd gohirio'r penderfyniad tan ddiwedd y cyfarfod er mwyn cael cyd-destun cyn penderfynu ar flaenoriaethau'r Is-bwyllgor, ac i amlygu unrhyw eitem ychwanegol i'w gynnwys ar y Blaengynllun Gwaith.

Nid oedd cworwm ar ddiwedd y cyfarfod ac felly ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad ond nodwyd y sylwadau er gwybodaeth.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sefydlu'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd i sicrhau craffu priodol ar y CBC. Holwyd os oedd angen ystyried y strwythur arfaethedig.

Cadarnhawyd bod y cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd eisoes wedi'i sefydlu a'i gytuno gan y chwe awdurdod lleol.

Adroddwyd y rhestr ganlynol o eitemau, fel awgrymiadau ar gyfer y Blaen Cynllun Gwaith:

- Rhaglen Archwilio Mewnol / Archwilio Allan (Archwilio Cymru)
- Adroddiad olrhain camau gweithredu archwilio
- Datganiad cyfrifon blynyddol 2024/25 ac adroddiad Archwilio Cymru
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25
- Cofrestr Risg
- Rheoli asedau a gwaredu cyfalaf
- Rheoli'r trysorlys
- Cyllideb ddrafft 2026/27
- Strategaeth drafft ariannol tymor canolig
- Adroddiad crynodeb llywodraethu'r CBC
 - Cynllunio Corfforaethol
 - Cynllunio Ariannol
 - Rheoli Perfformiad
 - Rheoli Risg
 - Cynllunio'r Gweithlu
 - Rheoli Asedau
 - Caffael

Eglurwyd y byddai swyddogion yn cyngori pa eitemau fyddai'n mynd ger bron yr Is-bwyllgor ar ba ddyddiadau, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, gyda'r disgwyliad o dri cyfarfod pellach ar gyfer 2025/26. Ymhelaethwyd byddai'r Blaen Cynllun Gwaith yn dilyn ei ddiweddarau yn cael ei ddisbarthu cyn gynted â phosib er mwyn darparu fframwaith i'r Is-bwyllgor.

Gofynnwyd y Cadeirydd (dros dro) a fyddai'n cadw swydd y Cadeirydd nes bod Cadeirydd yn cael ei benodi'n swyddogol yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor. Cadarnhawyd bod hyn yn ddisgwyliad rhesymol.

7. CYLCH GORCHWYL YR IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Matthew Edwards (Archwilio Cymru)

PENDERFYNWYD:

Nodiwyd Cylch Gorchwyl.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd bod y cylch gorchwyl yn adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr Is-bwyllgor, a bod y rhain wedi'u nodi yn Rheoliadau Sefydlu 2021 ac yng nghyfansoddiad y CBC. Amlygwyd swyddogaeth statudol benodol i'w Aelodau.

Ymhelaethwyd y bydd yr Is-bwyllgor yn hyrwyddo arfer da. Nodwyd bod canllawiau statudol ac anstatudol sy'n cefnogi'r prif Gynghorau'r un mor berthnasol i'r CBC.

Cydnabuwyd bod cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor yn debyg i gylch gorchwyl awdurdodau lleol. Nodwyd byddai nodi rhif fersiwn ar y cylch gorchwyl yn hwyluso unrhyw newidiadau dilynol. Cytunwyd y byddai unrhyw addasiadau yn cael eu nodi'n glir fel y gellir amlygu pob newid.

Gofynnwyd pwy yw Prif Swyddog yr Is-bwyllgor, a'r angen i'w amlygu yn y Cylch Gorchwyl. Holwyd am eglurhad ar y perthynas rhwng yr Is-bwyllgor a'r CBC, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ble mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud a ble mae adroddiadau'n cael eu rhannu'n ffurfiol. Mynegwyd bod y Swyddog Adran 151 yn cael ei ystyried fel swyddog arweiniol de-facto ar gyfer Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor yng Nghyngor Gwynedd, ond fod angen trafodaeth bellach ar benodi'r Swyddog Arweiniol ar gyfer y Pwyllgor hwn. Ategwyd nad yw Swyddogion Arweiniol yn cael ei gadarnhau yn y Cyfansoddiad na Chylch Gorchwyl yng Nghyngor Gwynedd.

Esboniwyd ei bod yn bwysig nodi'r swyddog arweiniol cywir, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth amserol a perthnasol yn cael ei darparu am raglen waith y CBC yn yr Is-bwyllgor. Atgoffwyd Aelodau bod y CBC yn gweithredu'n rhanbarthol yn hytrach nag yn lleol, ac felly bod yn bwysig cydnabod y gwahaniaethau rhwng y CBC a'r awdurdodau lleol. Ymhellach, nodwyd bod hwn yn gyfle i'r Is-bwyllgor lunio a thywys gwaith y CBC yn briodol, ac felly rhaid sicrhau bod Aelodau'n derbyn y wybodaeth gywir.

Tynnwyd sylw at Ddeddf Etholiadau Lleol 2021, a rôl pwyllgorau llywodraethu ac archwilio, ac sy'n cynnwys agweddau o berfformiad a chwynion. Nodwyd byddai'r gwaith yr Is-bwyllgor yn mynd ar draws i feysydd eraill ac o ganlyniad yn debygol o fod yn ehangach na chyfraniad y Swyddog Adran 151. Mynegwyd yr angen i amlygu llinell atebolrwydd clir i sicrhau bod yr Is-bwyllgor yn gwybod pwy yw'r pwynt cyswllt.

Amlygwyd pryder ynghylch a ddylai cynrychiolydd o Archwilio Cymru fod yn bresennol yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor gan nad oedd unrhyw faterion archwilio allanol ger bron yr Is-bwyllgor yn y cyfarfod hwn. Cadarnhawyd bod y CBC wedi cytuno ar raglen waith gydag Archwilio Cymru felly bydd disgwyliad iddynt fod yn bresennol ar gyfer yr eitemau yma. Nodwyd angen i'w gynnwys ar y Blaengynllun Gwaith.

Cadarnhawyd y drefn bleidleisiau ar gyfer y cyfarfod hwn, a bod penderfyniadau yn cael ei gyhoeddi yn y daflen benderfyniad dim mwy na 5 diwrnod gwaith yn dilyn y cyfarfod.

8. ADRODDIAD CYNNYDD Y CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dave Hole, Arweinydd Rhaglen Weithredu'r CBC

PENDERFYNWYD

Nodiwyd sefyllfa gyd-destunol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod hwn yn gyfle i roi cyd-destun y CBC ynghyd â diweddariad ar y gwaith sydd wedi ei wneud. Eglurwyd fod dau adroddiad wedi ei gyflwyno eisoes i'r Cydbwyllgor, y cyntaf yn ôl ym mis Mehefin yn ystod dyddiau cynnar y rhaglen yn dilyn y trosglwyddiad, a adnabuwyd rhestr uchelgeisiol o beth oedd angen ei wneud ond ei fod yn gyfnod ble nad oedd Prif Weithredwr wedi ei benodi. Bu i'r ail adroddiad adrodd ym mis Tachwedd, er mwyn diweddarau ar y gwaith sydd wedi ei wneud ac adnabod y sialensiau ar adnoddau sydd ei angen i gwblhau'r gwaith.

O ran cefndir, eglurwyd for y Cynllun Twf wedi trosglwyddo i'r CBC yn ôl yn Ebrill a bellach gyda statws gweithredu llawn ac felly a'r gallu i gyflogi pobl. Mynegwyd yr angen i'r CBC gydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredino â sefydliadau sector cyhoeddus a nodwyd fod dyletswydd statudol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

Eglurwyd fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud hyd at / a gan gynnwys y trosglwyddiad a hynny gyda thîm bach iawn. Tynnwyd sylw at y rhestr a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Ategwyd fod rhaglen o newid wedi ei ddatblygu yn seiliedig ar flaenoriaethau, a bod y Prif Weithredwr wedi ei phenodi ym Mehefin 2025. Nodwyd fod ffactorau wedi dal rhai pethau yn ôl, megis y penodi swyddogion ond eu bod yn gweithio drwy'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth i dderbyn y gefnogaeth sydd ei angen.

Er y sialensiau nodwyd fod gwaith wedi parhau i ddatblygu a'u bod o fewn camau ddyblygu ar gyfer meysydd fel y wefan. Amlygwyd heriau megis oedi ar adolygu prospectws CBC Llywodraeth Cymru, oedi wrth gaffael a gweithredu'r System Rheoli Pwyllgorau a denu ymgeisiwyd ar gyfer swyddi megis Uwch Swyddog Caffael. Esboniwyd eu bod yn parhau i fod angen gweithredu dau Is-bwyllgor sef Safonau a Throsolwg a Chraffu. Mynegwyd fod datblygu rhaglen UGC newydd ar gyfer 2026/27 a map ffordd ar gyfer y blynyddoedd dilynol yn debygol o fwrw sawl prosiect ymlaen.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y CBC wedi cyrraedd ble maen nhw o ganlyniad i gymorth staff partneriaid megis Cyngor Gwynedd a diolchwyd iddynt am eu gwaith. Pwysleisiwyd fod y Cydbwyllgorau ar draws Cymru yn newydd ac felly mae'n cymryd amser i lywio drwy'r broses o flaenoriaethu gan geisio peidio rhoi pwysau ychwanegol ar Awdurdodau'r Gogledd ond i sicrhau eu bod yn cyrraedd gofynion y Llywodraeth.

Nododd y Swyddog Monitro fod gwaith yn ac wedi ei wneud i sefydlu'r CBC yn endid o ran maint sy'n weddol fychan ond a maint gofynion maint Llywodraeth Leol. Uwchlaw sefydlu, nododd fod rhaglenni wedi bod yn datblygu yn y cefndir yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Ategwyd fod trosglwyddo'r Cynllun TWF wedi bod yn gatalydd i symud ymlaen ond fod adnoddau wedi bod yn heriol gan fod yr angen i ymateb i gynlluniau a gofynion statudol wrth gyfiawnhau adnoddau.

Mynegodd y Prif Swyddog Cyllid fod y pwysau adnoddau wedi bod yn sialens a bod nifer o waith wedi ei wneud. Eglurwyd y bydd cyfarfod arall o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gynnal yng nghanol mis Ionawr gan y bydd angen i'r CBC dderbyn y gyllideb, yn unol ar ddeddf erbyn 31 Ionawr.

Tynnwyd sylw at y Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Safonau gan holi os oes dyddiadau bellach mewn lle gan nodi pryder nad oes trefniadau craffu mewn lle. Ymatebwyd drwy nodi nad oes dyddiad pellach gan fod angen trafodaeth fanwl ar flaenoriaethau ac i drafod ymhellach gydag Awdurdodau Lleol. Mynegwyd y gobaith o gynnal y cyfarfodydd cyntaf yn ystod y gwanwyn. Ymhelaethwyd gan nodi fod y daith o ran Trosolwg a Chraffu yn rhai hir gan mai Awdurdodau Lleol y Gogledd sydd yn sefydlu'r gyfundrefn graffu ac nid y CBC. Ategwyd fod y penderfyniad wedi mynd drwy'r holl Gynghorau ym mis Gorffennaf ac yna fod angen creu rhaglen o sut y bydd y model yn gweithio. Pwysleisiwyd pwysigrwydd craffu o ran llywodraethant.

O ran y gyllideb nodwyd fod y broses hon yn teimlo yn hwyr iawn gan fod Awdurdodau ymhellach y blaen, ac y gallai amharu ar gyllidebau Awdurdodau Lleol os lefi yn codi. Nodwyd fod y cyfarfod eleni yn mynd i fod ychydig yn hwyr, ond gobeithio y bydd modd dod yn gynharach y flwyddyn nesaf. O ran y lefi, nodwyd fod trafodaethau yn digwydd ar lefel swyddogion ac Arweinyddion ac na fuasai unrhyw addasiad i'r lefi yn sioc iddynt.

Tynnwyd sylw at y drefn ariannol, gan ofyn a oes modd rhannu adroddiadau aethpwyd i'r CBC a'r aelodau yma i roi cyd-destun cyllidol ynghyd a'r prif negeseuon a roddwyd o ran gwariant 2024/25. Cytunwyd i hyn gan amlygu y bydd adrodd cyson o ran gwariant yn dod i'r pwyllgor hwn. O ran prif negeseuon amlygwyd fod llawer o danwariant er y gwaith sydd wedi ei wneud a'i fod wedi ei roi mewn cronfeydd wrth gefn ac y bydd yn erbyn y lefi ar gyfer

eleni a blwyddyn nesaf. Yn amlwg, esboniwyd gan fod datblygiadau eleni bydd y gwariant yn cynyddu a fydd yn arwain at lai o danwariant.

Trafodwyd arafwch o wneud penderfyniadau gan fod aelodaeth yr Is-bwyllgor hwn wedi ei benderfynu yn ôl ym mis Ionawr ond dim cyfarfod ffurfiol tan fis Rhagfyr, a gofynnwyd a oes mod cynyddu'r cyflymder o ran penderfyniadau. Ymatebwyd drwy nodi fod adnoddau wedi bod yn broblem o ran sicrhau fod penderfyniadau o safon yn cael ei gwneud, a'i bod wedi bod yn anodd penodi i swyddi. O ran materion eraill eglurwyd fod goblygiadau cyfreithio i rai meysydd yn y CBC ac o ganlyniad roedd angen blaenoriaethu a chynyddu cyflymder ar feysydd megis y Cynllun Datblygu Strategol a Chynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

Amlygwyd fod y CBC yn gorff newydd sydd â chyfrifoldebau mawr a bod angen sicrhau fod rôl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn wreiddiol i'r hyn sydd angen ei wneud. Gofynnwyd i weld y gofrestr risg mor fuan â phosib, ynghyd a gwybodaeth bellach ar staffio ac adnoddau.

9. MANDAD A SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio Cyngor Gwynedd.

PENDERFYNWYD:

Derbyniwyd a chymeradwywyd cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod ers Ebrill 2025, pan ddaeth y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang i rym yn Sector Gyhoeddus y Deyrnas Unedig, mae'n hanfodol bod y Gwasanaeth Archwilio yn cydymffurfio â'r Safonau yma. Eglurwyd fod Nodyn Cymhwysio wedi ei gyflwyno sydd yn darparu fframwaith ymarferol ar sut y gellid gweithredu a chymhwyso, yn rhoi arweiniad ac yn egluro sut mae'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang ar lywodraethu - sef Parth III (Domain III) yn berthnasol i oruchwyliaeth a dyletswyddau'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Un o'r camau hanfodol yw cymeradwyo siarter sydd yn cynnwys mandad a sgôp a mathau o waith Archwilio Mewnol.

Ategwyd fod CIPFA wedi datblygu Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y Deyrnas Unedig gyfer dehongli a sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyletswyddau statudol. Mae'r Cod wedi ei anelu at y rhai sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu effeithiol – sef yr Is-Bwyllgor hwn.

Mae'r Siarter yn nodi'r trefniadau ar gyfer swyddogaeth archwilio fewnol gyflawni ei ddiben. Mae rôl archwilio mewnol yn cynnwys:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg,
- Hyrwyddo arfer da mewn llywodraethu a
- Cyngori ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

I sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau, nodwyd mai cyfrifoldeb yr Is-Bwyllgor hwn yw adolygu a chymeradwyo'r Siarter gan sicrhau bod diffiniad clir o

- Bwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb Archwilio Mewnol,

- Annibyniaeth a llinellau adrodd y swyddogaeth Archwilio Mewnol,
- Cwmpas gwaith a hawliau mynediad Archwilio Mewnol,
- Bod y mandad yn cadarnhau bod Archwilio Mewnol yn meddu ar yr awdurdod cyfreithiol a sefydliadol i weithredu'n effeithiol ac yn darparu manylion am rôl a chyfrifoldebau swyddogaeth Archwilio Mewnol,
- Gwirio bod y Siarter a'r mandad yn sicrhau annibyniaeth Archwilio Mewnol ac yn diogelu Archwilio Mewnol rhag dylanwad amhriodol
- Goruchwyllo a monitro gweithgareddau Archwilio Mewnol i adolygu cydymffurfiaeth â'r Siarter a'r mandad.

Gofynnwyd beth yw capasiti archwilio mewnol y CBC. Eglurwyd bod Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaeth archwilio mewnol trwy gytundeb lefel gwasanaeth, a nodwyd bod tîm archwilio mewnol Cyngor Gwynedd yn cynnwys Rheolwr Archwilio, dau Arweinydd Archwilio, a 4 Uwch Archwilwyr.

Gofynnwyd sut y penderfynir ar y rhaglen waith gyfredol ar gyfer archwilio mewnol. Manylwyd bod y cynllun blynyddol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu llunio gyda mewnbwn y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid. Cadarnhawyd bydd y Cynllun Blynyddol yn dod ger bron yr Is-bwyllgor hwn yn y dyfodol i dderbyn cymeradwyaeth. Nodwyd nad oedd Cynllun Blynyddol wedi'i lunio ar hyn o bryd gan fod angen Siarter Archwilio yn gyntaf er mwyn llunio Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol. Eglurwyd bod asesiad risg yn cael ei drafod ac y bydd unrhyw waith archwilio mewnol wedi ei llunio un unol â'r prif risgiau.

Sicrhawyd yr Is-bwyllgor bod Uchelgais Gogledd Cymru wrthi'n datblygu eu Strategaeth Risg Gorfforaethol, ac mae drafft wedi'i ddsbarthu gyda swyddogion, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Is-Bwyllgor maes o law. Pwysleisiwyd ei bod yn parhau i fod yn ddyddiau cynnar ers trosglwyddo'r CBC ond fod llunio Strategaeth Risg Gorfforaethol ranbarthol yn flaenoriaeth ac yn ofyniad hanfodol.

Gofynnwyd pa gamau mae Uchelgais Gogledd Cymru a'r CBC wedi'u cymryd o ran cyhoeddusrwydd, yn enwedig ynglŷn â bwriad o gadw trigolion yn ymwybodol o swyddogaethau'r CBC. Eglurwyd mai gwefan sefydledig Uchelgais Gogledd Cymru yw'r rhyngwyneb cyhoeddus, ac mae'n cynnwys gwybodaeth â dyletswyddau statudol y CBC. Nodwyd bod y gwaith y mae'r CBC yn ei wneud yn gymhleth a bydd yn cymryd amser i gasglu'r holl wybodaeth a chyrraedd y cynulleidfaoedd cywir.

Eglurwyd mai unwaith y cytunir ar y cytundeb ariannu ar gyfer y Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn rheoli gweinyddiaeth buddsoddiad gwerth oddeutu £400 miliwn ar gyfer hyrwyddo a gwella economi Gogledd Cymru. Nodwyd mai'r bwriad yw cyrraedd cymaint o gymunedau â phosib gyda'r buddsoddiad. Amlygwyd mai eu huchelgais hirdymor yw creu swyddi newydd o fewn yr economi ac annog cenedlaethau'r dyfodol i aros yng Ngogledd Cymru mewn swyddi gwerth uchel. Ychwanegwyd mai bwriad i ddenu talent yn ôl i'r rhanbarth a thargedu buddsoddiad sy'n darparu cyfleoedd ar draws sectorau allweddol. Nodwyd bod Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd ym mlwyddyn pump o gyflawni'r Fargen Twf, sy'n gynllun 15 mlynedd ac felly'n dal i fod yn ei dyddiau cynnar.

Mynegwyd pryderon ynghylch sut mae archwilio mewnol yn cael ei ddefnyddio fel adnodd sy'n adlewyrchu dull systematig. Nodwyd bod y Siarter a gofynion yr Is-bwyllgor yn rhestru disgwyliadau o ran yr hyn y dylai'r archwiliad mewnol ei gwmpasu ac adrodd arno, er mwyn

cynnig sicrwydd i'r Is-bwyllgor ynghylch a gweithrediadau'r CBC. Awgrymwyd, ochr yn ochr â'r Strategaeth Risg Gorfforaethol, y dylid datblygu Cofrestr Risg i ganiatáu i'r CBC ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau. Mynegwyd bod angen i'r Is-bwyllgor symud tuag at ddull systematig o ran gweithredu. Sicrhaodd y Swyddog Adran 151 bod dull systematig yn rhan o reolau gweithdrefn ariannol y CBC, ac felly mae'r materion yn cael eu cwblhau. Nodwyd bod y gofrestr risg yn rhan o'r gofynion llywodraethu'r CBC a bydd yn cael eu datblygu.

Nodwyd y bydd angen i aelodau o'r awdurdodau lleol angen dealltwriaeth well o sut mae cyfraniadau Awdurdodau Lleol yn cael ei defnyddio.

Ymhelaethwyd bod yn rhaid i'r Is-bwyllgor symud ymlaen yn gyflym er mwyn sicrhau nad ydynt yn syrthio ar ei hôl gydag Archwilio ac i adrodd yn ôl i'w hawdurdodau lleol yn briodol.

Cytunwyd y byddai'r Archwilio Mewnol ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:00

(Cadeirydd)



**ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
4 Mehefin 2026**

TEITL: Blaengynllun Gwaith yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2026/27
AWDUR: Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Gofyn i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried a chymeradwyo ei Raglen Waith ar gyfer 2026/27.
- 1.2. Mae'r Rhaglen Waith arfaethedig wedi'i hatodi yn Atodiad 1 a'i bwriad yw darparu sail strwythuredig ar gyfer gwaith sicrwydd yr Is-bwyllgor yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1. Bod yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer 2026/27 yn Atodiad 1.
- 2.2. Bod yr Is-bwyllgor yn cytuno y dylid trin y Rhaglen Waith fel dogfen fyw a'i hadolygu ym mhob cyfarfod cyffredin, gydag eitemau pellach yn cael eu hychwanegu pan fyddant yn dod o fewn Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor neu pan fyddant yn cael eu cyfeirio gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- 2.3. Bod yr Is-bwyllgor yn nodi bod y rhaglen wedi'i fframio o amgylch sicrwydd, digonolrwydd rheolaethau, effeithiolrwydd trefniadau, cydymffurfiaeth statudol a, lle bo hynny'n briodol, argymhellion i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Mae'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen graidd o fframwaith llywodraethu'r CBC. Mae angen rhaglen waith sy'n ymarferol i sicrhau bod cyfrifoldebau cyfansoddiadol a statudol yr Is-bwyllgor wedi'u hamserlennu, eu bod yn weledol a bod modd eu rhyddhau mewn modd trefnus.
- 3.2. Mae'r rhaglen arfaethedig yn cefnogi'r Is-bwyllgor wrth gynnal trosolwg o faterion ariannol, rheolaeth risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad, llywodraethu corfforaethol, ymdrin â chwynion, datganiadau ariannol ac archwilio allanol a mewnol.
- 3.3. Bydd cymeradwyo'r rhaglen hefyd yn helpu swyddogion i gynllunio cynhyrchu adroddiadau'r amserol a sicrhau nad yw gweithgareddau sicrwydd yn cael eu gadael i adrodd ad hoc neu eu gyrru gan bwysau gweithredol uniongyrchol yn unig.

4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Mae angen i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae Cyfansoddiad y CBC yn nodi bod angen i'r Is-bwyllgor adolygu a chraffu materion ariannol; gwneud adroddiadau ac argymhellion sy'n ymwneud â'r materion hynny; adolygu ac asesu rheolaeth risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol; asesu gallu'r CBC i ymdrin â chwynion yn effeithiol; goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol ac allanol; ac adolygu datganiadau ariannol a baratowyd gan y CBC.
- 4.2. Felly, mae rôl yr Is-bwyllgor yn rôl sicrwydd, adolygu ac argymhell. Ni fwriedir disodli cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau'r CBC, ei is-bwyllgorau neu swyddogion sy'n gweithredu o dan ddirprwyaeth.
- 4.3. Mae'r Rhaglen Waith drafft wedi'i pharatoi i fapio'r prif faterion busnes ar gyfer 2026/27 yn erbyn Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor. Yn benodol, mae'n cynnwys cynnydd a chynllunio archwilio, risg strategol, rheolaeth trysorlys, adrodd alldro a chyllid, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ymdrin â chwynion corfforaethol a siapio cychwynnol rhaglen y flwyddyn ddilynol.

- 4.4. Mae'r rhaglen ddrafft yn fwriadol yn cynnwys sgôp i eitemau gael eu cadarnhau neu eu haddasu wrth i'r flwyddyn ddatblygu. Dyma'r dull cywir. Ni fyddai rhaglen gaeth yn briodol ar gyfer strwythur llywodraethu'r CBC sy'n aeddfedu, yn benodol lle y gall fod angen i amserlenni archwilio, risg, cyllideb a chynllunio corfforaethol gyd-fynd â chylchoedd adrodd Archwilio Cymru, archwilio mewnol a'r CBC.

5. BLAEN RAGLEN WAITH 2026/27

- 5.1. Mae'r Flaen Raglen Waith wedi'i strwythuro o amgylch y prif feysydd sicrwydd canlynol:
- materion ariannol, gan gynnwys cyllideb, alldro, strategaeth ariannol tymor canolig, rheolaeth trysorlys a monitro ariannol;
 - rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys y gofrestr risg strategol, strategaeth rheoli risg, rheolaethau gwrth-dwyll a rheoli argymhellion archwilio;
 - rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol, y Datganiad Llywodraethu Blyneddol a gweithrediadau gwella llywodraethu;
 - ymdrin â chwynion, gan gynnwys sicrwydd proses/polisi, adrodd blyneddol, themâu a gwersi a ddysgwyd;
 - archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys y siarter/mandad archwilio, cynllun blyneddol, adrodd ar gynnydd, canfyddiadau Archwilio Cymru a thracio argymhellion; a
 - datganiadau ariannol ac unrhyw geisiadau sicrwydd eraill a gyfeiriwyd yn ffurfiol gan y CBC.
- 5.2. Mae'r rhaglen wedi'i hatodi fel Atodiad 1. Dylid ei hadolygu'n rheolaidd gan yr Is-bwyllgor fel bod modd i aelodau brofi a yw'r eitemau sicrwydd cywir yn cael eu cyflwyno ar yr amser cywir, ac a yw'r rhaglen yn parhau i fod yn gymesur â cham datblygu sefydliadol a phroffil risg y CBC.
- 5.3. Lle mae aelodau yn adnabod gofynion sicrwydd pellach, dylid ystyried y rhain yn erbyn Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor a'r gwahaniaeth rhwng rheoli sefydliadol a goruchwyllo sicrwydd. Dylai eitemau allu cael eu fframio o amgylch llywodraethu, rheolaethau, risg, uniondeb, cydymffurfiaeth statudol, gwerth am arian neu effeithiolrwydd y trefniadau.
- 5.4. Hefyd, dylai swyddogion allu diwygio'r rhaglen pan fo amserlenni adrodd yn newid neu pan fo gofynion statudol, archwilio neu lywodraethu newydd yn codi yn ystod y flwyddyn.

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 6.1. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol yn codi o gymeradwyo'r Flaen Raglen Waith ei hun.
- 6.2. Fodd bynnag, bydd y rhaglen yn helpu'r Is-bwyllgor i ryddhau ei rôl goruchwyllo ym mherthynas materion ariannol y CBC, gan gynnwys adrodd cyllidebau, alldro, rheolaeth trysorlys, cynllunio ariannol tymor canolig a datganiadau ariannol.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 7.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.
- 7.2. Mae cymeradwyo Blaen Raglen Waith yn cyd-fynd â rôl cyfansoddiadol a statudol yr Is-bwyllgor ac yn cefnogi rhyddhau ei swyddogaethau sicrwydd, adolygu ac argymhell mewn modd trefnus.
- 7.3. Nid yw'r rhaglen yn rhoi pwerau gwneud penderfyniadau y tu hwnt i'r rheini a osodwyd yng Nghylch Gorchwyl a Chyfansoddiad y CBC. Bydd angen i unrhyw argymhellion sy'n codi o waith yr Is-bwyllgor gael eu hadrodd i'r CBC pan fo angen.

8. GOBLYGIADAU LLESANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

- 8.1. Mae'r adroddiad yn cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gryfhau trefniadau ar gyfer llywodraethiant hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad. Yn benodol, mae rhaglen sicrwydd strwythuredig yn helpu'r CBC i gynnal trefniadau cadarn ar gyfer risg, cyllid, perfformiad a llywodraethu corfforaethol.

9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A'R IAITH GYMRAEG

- 9.1. Nid oes goblygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth neu'r iaith Gymraeg yn codi o gymeradwyo'r Flaen Raglen Waith.

9.2. Dylai adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno dan y rhaglen nodi ac ymdrin ag unrhyw oblygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth neu'r iaith Gymraeg sy'n codi o bynciau'r adroddiadau hynny.

10. ATODIADAU

10.1. Atodiad 1 – Blaen Raglen Waith yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2026/27

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl gyfansoddiadol a statudol diffiniedig o ran materion ariannol y CBC, rheolaeth risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad, llywodraethu corfforaethol, ymdrin â chwynion, datganiadau ariannol a threfniadau archwilio.

Mae'r Flaen Raglen Waith arfaethedig yn declyn llywodraethu angenrheidiol a synhwyrol. Dylai helpu i sicrhau bod gwaith yr Is-bwyllgor wedi'i gynllunio, yn gymesur ac yn cyd-fynd â'i Gylch Gorchwyl.

Bydd yn bwysig bod adroddiadau yn y dyfodol yn parhau o fewn cylch gwaith argymhellion a sicrwydd yr Is-bwyllgor ac nad ydynt yn llithro i reolaeth weithredol neu ddyblygu swyddogaethau gwneud penderfyniadau'r CBC neu is-bwyllgorau eraill.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r Flaen Raglen Waith yn darparu fframwaith priodol i ddod ag eitemau cyllid, archwilio, rheolaeth trysorlys, cyllideb a chyfrifon i'r Is-bwyllgor yn ystod 2026/27.

Dylai'r rhaglen gefnogi gweinyddu materion ariannol y CBC yn briodol a rhoi sylfaen glir ar gyfer heriau a sicrwydd ariannol i aelodau.



Pwrpas

Bwriad y Flaen Raglen Waith yw darparu sail strwythuredig ar gyfer gwaith sicrwydd yr Is-bwyllgor yn ystod 2026/27. Mae'n mapio adroddiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor ac yn cefnogi amserlennu clir ar gyfer eitemau archwilio, cyllid, risg, perfformiad, cwynion a llywodraethu corfforaethol.

Egwyddorion gweithredu

Mae'r rhaglen yn offeryn byw i gynllunio sicrwydd a dylid ei hadolygu ym mhob cyfarfod arferol.

Gellir ychwanegu eitemau ychwanegol pan fyddant yn dod o fewn Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor neu pan fyddant yn cael eu cyfeirio gan y CBC.

Nid yw'r rhaglen yn disodli cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau'r CBC, ei is-bwyllgorau neu swyddogion eraill sy'n gweithredu o dan ddirprwyaeth.

Dylid fframio adroddiadau o amgylch sicrwydd, digonolrwydd rheolaethau, effeithiolrwydd trefniadau, cydymffurfiaeth statudol ac argymhellion i'r CBC lle bo hynny'n briodol.

Mapio'r Cylch Gorchwyl

Maes y Cylch Gorchwyl	Cwmpas y Rhaglen Waith
Materion ariannol	Cyllideb, alldro, strategaeth ariannol tymor canolig, rheoli trysorlys a monitro ariannol.
Rheoli risg a rheolaeth fewnol	Cofrestr risg strategol, strategaeth rheoli risg, rheolaethau gwrth-dwyll, diweddariadau rheolaeth fewnol a rheoli argymhellion archwilio.
Rheoli perfformiad	Adroddiad ar berfformiad y Cynllun Corfforaethol a sicrwydd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli perfformiad.
Llywodraethu corfforaethol	Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, camau gwella llywodraethu, diweddariadau cyfansoddiadol/gweithdrefnau lle bo hynny'n berthnasol.
Ymdrin â chwynion	Polisi cwynion corfforaethol, sicrwydd prosesau, adroddiad cwynion blynnyddol a gwersi a ddysgwyd.
Archwiliad mewnol	Siarter/Mandad Archwilio Mewnol, cynllun archwilio blynnyddol, adroddiadau cynnydd, olrhain argymhellion a barn flynyddol.
Archwiliad allanol	Cynllun Archwilio Cymru, canfyddiadau archwilio, ymateb rheolwyr ac olrhain argymhellion.
Datganiadau ariannol	Ffurflen Flynyddol/Datganiad Cyfrifon, adroddiadau ôl-archwilio ac adroddiadau statudol cysylltiedig.
Swyddogaethau eraill a bennir gan y CBC	Ceisiadau penodol ynghylch sicrwydd a gyfeiriwyd yn ffurfiol gan y CBC.

Blaen Raglen Waith 2026/27

Dyddiad y cyfarfod	Teitl yr adroddiad	Pwrpas	Swyddog arweiniol	Math o adroddiad	Eithriadig
Meh 2026 I'w gadarnhau	Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd	Ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfer 2026/27.	Gwasanaethau Democraataidd	Penderfyniad	Na
Meh 2026 I'w gadarnhau	Cylch Gorchwyl a Rôl yr Is-bwyllgor	Nodi'r Cylch Gorchwyl ac atgyfnerthu rôl sicrwydd, adolygu ac argymhell yr Is-bwyllgor.	Swyddog Monitro	Nodi	Na
Meh 2026 I'w gadarnhau	Blaen Raglen Waith 2026/27	Cymeradwyo'r Flaen Raglen Waith a chytuno ar drefniadau i'w hadolygu.	Swyddog Monitro / Prif Swyddog Cyllid	Penderfyniad	Na
Meh 2026 I'w gadarnhau	Siarter / Mandad Archwilio Mewnol	Cymeradwyo'r Siarter/Mandad Archwilio Mewnol os nad yw eisoes wedi'i gymeradwyo'n ddilys; fel arall nodi'r fframwaith a'r llinellau adrodd.	Pennaeth Archwilio Mewnol / Prif Swyddog Cyllid	Penderfyniad / Nodi	Na
Meh 2026 I'w gadarnhau	Cynllun Archwilio Mewnol 2026/27	Ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer 2026/27.	Pennaeth Archwilio Mewnol / Prif Swyddog Cyllid	Penderfyniad	Na
Meh 2026 I'w gadarnhau	Cofrestr Risg Strategol a Threfniadau Rheoli Risg	Adolygu'r gofrestr risg strategol ac ystyried digonolrwydd trefniadau adnabod risg, perchnogaeth, lliniaru a dwysáu.	Prif Weithredwr / Prif Swyddog perthnasol	Adolygu / Argymhelliad	Na / I'w gadarnhau
Meh 2026 I'w gadarnhau	Diweddariad Rheolaeth Trysorlys	Derbyn sicrwydd ar drefniadau rheolaeth trysorlys ac adrodd.	Prif Swyddog Cyllid	Nodi / Adolygu	Na
Meh 2026 I'w gadarnhau	Trefniadau Ymddrin â Chwynion Corfforaethol	Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu polisi, dylunio prosesau a threfniadau adrodd yn y dyfodol. Adolygu'r polisi/proses gwynion corfforaethol ac asesu a yw'n darparu trefniadau effeithiol ar gyfer ymddrin â chwynion.	Swyddog Monitro / Swyddog Llywodraethu	Adolygu / Argymhelliad	Na
Medi / Hyd 2026 I'w gadarnhau	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Ddrafft / Model Gweithredu Targed	Adolygu'r fframwaith cynllunio ariannol a rhoi sylwadau ar faterion sicrwydd cyn eu hystyried gan y CBC lle bo angen.	Prif Swyddog Cyllid / Prif Weithredwr	Adolygu / Argymhelliad	Na / I'w gadarnhau
Medi / Hyd 2026 I'w gadarnhau	Cynllun Corfforaethol	Adolygu'r fframwaith cynllunio corfforaethol arfaethedig a rhoi sylwadau ar drefniadau llywodraethu, perfformiad a sicrwydd.	Prif Weithredwr / Arweinydd Cynllunio Corfforaethol	Adolygu / Argymhelliad	Na
Medi / Hyd 2026 I'w gadarnhau	Adroddiad Alldro Ariannol	Adolygu'r sefyllfa alldro a darparu sylwadau neu argymhellion o fewn cylch gwaith materion ariannol yr Is-bwyllgor.	Prif Swyddog Cyllid	Adolygu	Na
Medi / Hyd 2026 I'w gadarnhau	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Derbyn cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ac unrhyw themâu sicrwydd sy'n dod i'r amlwg.	Pennaeth Archwilio Mewnol	Nodi / Adolygu	Na
Rhag 2026 I'w gadarnhau	Cyllideb Ddrafft 2027/28	Adolygu'r gyllideb ddrafft a rhoi sylwadau ar lywodraethu ariannol, rhagdybiaethau, risgiau a sicrwydd cyn eu hystyried gan y CBC.	Prif Swyddog Cyllid	Adolygu / Argymhelliad	Na
Rhag 2026 I'w gadarnhau	Datganiad Llywodraethu Blynnyddol	Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol a'r camau gwella llywodraethu.	Swyddog Monitro / Prif Swyddog Cyllid	Adolygu / Argymhelliad	Na
Rhag 2026 I'w gadarnhau	Rheolaethau Gwrth-dwyll	Adolygu rheolaethau gwrth-dwyll, llygredd ac afreoleidd-dra, gan gynnwys fframwaith polisi, llwybrau adrodd a threfniadau sicrwydd.	Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Monitro	Adolygu	Na / I'w gadarnhau
Rhag 2026 I'w gadarnhau	Diweddariad Archwilio Allanol / Argymhellion Archwilio Cymru	Ystyried canfyddiadau archwilio allanol, ymatebion rheolwyr a chynnydd yn erbyn argymhellion.	Prif Swyddog Cyllid / Archwilio Cymru	Adolygu	Na
Rhag 2026 I'w gadarnhau	Rheolaethau Atal Gwyngalchu Arian	Adolygu rheolaethau atal gwyngalchu arian, llwybrau adrodd a threfniadau sicrwydd.	Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Monitro	Adolygu	Na / I'w gadarnhau
Maw 2027 I'w gadarnhau	Diweddariad y Gofrestr Risg	Adolygu symudiad mewn risgiau strategol ac effeithiolrwydd trefniadau lliniaru a dwysáu.	Prif Weithredwr / Prif Swyddog perthnasol	Adolygu	Na / I'w gadarnhau
Maw 2027 I'w gadarnhau	Olrhain Cynnydd Archwilio Mewnol ac Argymhellion	Derbyn cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio a statws yr argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt.	Pennaeth Archwilio Mewnol	Adolygu	Na
Maw 2027 I'w gadarnhau	Diweddariad Blynnyddol ar Gwynion / Gwersi a Ddysgwyd	Adolygu data cwynion, themâu, dysgu a gwelliannau arfaethedig.	Swyddog Monitro / Swyddog Llywodraethu	Adolygu	Na
Maw 2027 I'w gadarnhau	Blaen Raglen Waith 2027/28 - Adolygiad Cychwynnol	Dechrau llunio'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2027/28.	Swyddog Monitro / Prif Swyddog Cyllid	Adolygu	Na

Eitemau Blaenorol / Cefndirol

Dyddiad	Eitem	Pwrpas	Canlyniad / Penderfyniad	Pwynt gweithredu
9 Rhag 2025	Cylch Gorchwyl	I'r Is-bwyllgor nodi.	Nodwyd y Cylch Gorchwyl.	Dim.
9 Rhag 2025	Mandad a Siarter Archwilio Mewnol	Cymeradwyo'r Siarter/Mandad.	Cofnodwyd ei dderbyn a'i gymeradwyo.	Gwirio a gymeradwywyd yn ddilys ac a oes angen ail-gymeradwyo.
9 Rhag 2025 / 13 Ionawr 2026	Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd	Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.	Gohiriwyd oherwydd materion cworwm.	I'w ddychwelyd i'r cyfarfod priodol cyntaf.
Da 23 Ebr 2026	Sesiynau sefydlu/hyfforddi aelodau	Hyfforddiant ar rôl, Cylch Gorchwyl, cyllid, risg, perfformiad, cyd-destun Cynllun Twf a Pharth	Hyfforddiant wedi'i gyflwyno.	Defnyddio'r cyfarfod cyntaf i atgyfnerthu eglurder rôl a chylch gwaith sicrwydd.

Dyddiad	Eitem	Pwrpas	Canlyniad / Penderfyniad	Pwynt gweithredu
		Buddsoddi.		

Drafft | Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Uchelgais Gogledd Cymru

IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Blaenraglen Waith 2026/27

Pwrpas

Bwriad y Flaenraglen Waith yw darparu sail strwythuredig ar gyfer gwaith sicrwydd yr Is-bwyllgor yn ystod 2026/27. Mae'n mapio adroddiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor ac yn cefnogi amserlennu clir ar gyfer eitemau archwilio, cyllid, risg, perfformiad, cwynion a llywodraethu corfforaethol.

Egwyddorion gweithredu

- Mae'r rhaglen yn offeryn byw i gynllunio sicrwydd a dylid ei hadolygu ym mhob cyfarfod arferol.
- Gellir ychwanegu eitemau ychwanegol pan fyddant yn dod o fewn Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor neu pan fyddant yn cael eu cyfeirio gan y CBC.
- Nid yw'r rhaglen yn disodli cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau'r CBC, ei is-bwyllgorau neu swyddogion eraill sy'n gweithredu o dan ddirprwyaeth.
- Dylid fframio adroddiadau o amgylch sicrwydd, digonolrwydd rheolaethau, effeithiolrwydd trefniadau, cydymffurfiaeth statudol ac argymhellion i'r CBC lle bo hynny'n briodol.

Mapio'r Cylch Gorchwyl

Maes y Cylch Gorchwyl	Cwmpas y Rhaglen Waith
Materion ariannol	Cyllideb, alldro, strategaeth ariannol tymor canolig, rheoli trysorlys a monitro ariannol.
Rheoli risg a rheolaeth fewnol	Cofrestr risg strategol, strategaeth rheoli risg, rheolaethau gwrth-dwyll, diweddariadau rheolaeth fewnol a rheoli argymhellion archwilio.
Rheoli perfformiad	Adroddiad ar berfformiad y Cynllun Corfforaethol a sicrwydd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli perfformiad.
Llywodraethu corfforaethol	Datganiad Llywodraethu Blynyddol, camau gwella llywodraethu, diweddariadau cyfansoddiadol/gweithdrefnau lle bo hynny'n berthnasol.



Ymdrin â chwynion

Archwiliad mewnol

Polisi cwynion corfforaethol, sicrwydd prosesau, adroddiad cwynion blynyddol a gwersi a ddysgwyd.

Siarter/Mandad Archwilio Mewnol, cynllun archwilio blynyddol, adroddiadau cynnydd, olrhain argymhellion a barn flynyddol.

Archwiliad allanol

Datganiadau ariannol

Swyddogaethau eraill a bennir gan y CBC

Cynllun Archwilio Cymru, canfyddiadau archwilio, ymateb rheolwyr ac olrhain argymhellion.

Ffurflen Flynyddol/Datganiad Cyfrifon, adroddiadau ôl-archwilio ac adroddiadau statudol cysylltiedig.

Ceisiadau penodol ynghylch sicrwydd a gyfeiriwyd yn ffurfiol gan y CBC.

Blaenraglen Waith 2026/27

Dyddiad y cyfarfod	Teitl yr adroddiad	Pwrpas	Swyddog arweiniol	Math o adroddiad	Eithriedig
Mehefin 2026 I'w gadarnhau	Cofrestr Risg Strategol a Threfniadau Rheoli Risg	Adolygu'r gofrestr risg strategol ac ystyried digonolrwydd trefniadau adnabod risg, perchnogaeth, lliniaru a dwysáu.	Prif Weithredwr / Prif Swyddog perthnasol	Adolygu / Argymheliad	Nac ydy / I'w gadarnhau
Mehefin 2026 I'w gadarnhau	Diweddariad Rheolaeth Trysorlys	Derbyn sicrwydd ar drefniadau rheolaeth trysorlys ac adrodd.	Prif Swyddog Cyllid	Nodi / Adolygu	Nac ydy
Mehefin 2026 I'w gadarnhau	Trefniadau Ymdrin â Chwynion Corfforaethol	Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu polisi, dylunio prosesau a threfniadau adrodd yn y dyfodol. Adolygu'r polisi/proses gwynion corfforaethol ac asesu a yw'n darparu trefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion.	Swyddog Monitro / Swyddog Llywodraethu	Nodi / Adolygiad / Argymheliad	Nac ydy
Mehefin 2026 I'w gadarnhau	Adroddiad Alldro Ariannol 2025/26	Adolygu'r sefyllfa alldro a darparu sylwadau neu argymhellion o fewn cylch gwaith materion ariannol yr Is-bwyllgor.	Prif Swyddog Cyllid	Adolygu	Nac ydy
Mehefin 2026 I'w gadarnhau	Cynllun Archwilio Allanol	Derbyn gwybodaeth gan yr Archwilydd Allanol, Archwilio Cymru, am eu cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2026/27, o safbwynt Cyllid a Pherfformiad.	Prif Swyddog Cyllid	Nodi	
Medi / Hydref 2026 I'w gadarnhau	Strategaeth Ariannol Tymor Canolig Ddrafft / Model Gweithredu Targed	Adolygu'r fframwaith cynllunio ariannol a rhoi sylwadau ar faterion sicrwydd cyn eu hystyried gan y CBC lle bo angen.	Prif Swyddog Cyllid / Prif Weithredwr	Adolygu / Argymheliad	Nac ydy / I'w gadarnhau
Medi / Hydref 2026 I'w gadarnhau	Cynllun Corfforaethol	Adolygu'r fframwaith cynllunio corfforaethol arfaethedig a rhoi sylwadau ar drefniadau llywodraethu, perfformiad a sicrwydd.	Prif Weithredwr / Arweinydd Cynllunio Corfforaethol	Adolygu / Argymheliad	Nac ydy
Medi / Hydref 2026 I'w gadarnhau	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Derbyn cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio ac unrhyw themâu sicrwydd sy'n dod i'r amlwg.	Pennaeth Archwilio Mewnol	Nodi / Adolygu	Nac ydy
Medi / Hydref 2026 I'w gadarnhau	Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r camau gwella llywodraethu.	Swyddog Monitro / Prif Swyddog Cyllid	Adolygu / Argymheliad	Nac ydy
Rhagfyr 2026 I'w gadarnhau	Cyllideb Ddrafft 2027/28	Adolygu'r gyllideb ddrafft a rhoi sylwadau ar lywodraethu ariannol, rhagdybiaethau, risgiau a sicrwydd cyn eu hystyried gan y CBC.	Prif Swyddog Cyllid	Adolygu / Argymheliad	Nac ydy
Rhagfyr 2026 I'w gadarnhau	Rheolaethau Gwrth-dwyll	Adolygu rheolaethau gwrth-dwyll, llygredd ac afreoleidd-dra, gan gynnwys fframwaith polisi, llwybrau adrodd a threfniadau sicrwydd.	Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Monitro	Adolygu	Nac ydy / I'w gadarnhau
Rhagfyr 2026 I'w gadarnhau	Diweddariad Archwilio Allanol / Argymhellion Archwilio Cymru	Ystyried canfyddiadau archwilio allanol, ymatebion rheolwyr a chynnydd yn erbyn argymhellion.	Prif Swyddog Cyllid / Archwilio Cymru	Adolygu	Nac ydy
Rhagfyr 2026 I'w gadarnhau	Gwyngalchu Arian?	Swyddog Gwyngalchu Arian?	Prif Swyddog Cyllid		
Mawrth 2027 I'w gadarnhau	Diweddariad y Gofrestr Risg	Adolygu symudiad mewn risgiau strategol ac effeithiolrwydd trefniadau lliniaru a dwysáu.	Prif Weithredwr / Prif Swyddog perthnasol	Adolygu	Nac ydy / I'w gadarnhau
Mawrth 2027 I'w gadarnhau	Olrhain Cynnydd Archwilio Mewnol ac Argymhellion	Derbyn cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio a statws yr argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt.	Pennaeth Archwilio Mewnol	Adolygu	Nac ydy

Dyddiad y cyfarfod	Teitl yr adroddiad	Pwrpas	Swyddog arweiniol	Math o adroddiad	Eithriedig
Mawrth 2027 I'w gadarnhau	Diweddariad Blynyddol ar Gwynion / Gwersi a Ddysgwyd	Adolygu data cwynion, themâu, dysgu a gwelliannau arfaethedig.	Swyddog Monitro / Swyddog Llywodraethu	Adolygu	Nac ydy
Mawrth 2027 I'w gadarnhau	Blaenraglen Waith 2027/28 - Adolygiad Cychwynnol	Dechrau llunio'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2027/28.	Swyddog Monitro / Prif Swyddog Cyllid	Adolygu	Nac ydy
Mawrth 2027 I'w gadarnhau	Cynllun Archwilio Mewnol 2027/28	Ystyried a chymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risg ar gyfer 2027/28.	Prif Swyddog Cyllid	Adolygu / Argymhelliad	Nac ydy

Eitemau Blaenorol / Cefndirol

Dyddiad	Eitem	Pwrpas	Canlyniad / Penderfyniad	Pwynt gweithredu
9 Rhagfyr 2025	Cylch Gorchwyl	I'r Is-bwyllgor nodi.	Nodwyd y Cylch Gorchwyl.	Dim.
Mae ein gweithdrefn yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu o brofiad. Mae hyn yn ein helpu i ddeall pryderon pobl, gwella ein gwasanaethau, a rhannu arfer dda ar draws y sefydliad.

Chwe egwyddor ar gyfer gweinyddu da

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r chwe [egwyddor ar gyfer gweinyddu da](#) a nodir gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) o dan adran 34 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

1. Cael pethau yn iawn.
2. Canolbwyntio ar y cwsmer.
3. Bod yn agored ac yn atebol.
4. Gweithredu yn deg ac yn gymesur.
5. Gwneud pethau yn iawn.
6. Ceisio gwelliant parhaus.

Canmoliaethau

Os hoffech ddweud wrthym am rywbeth rydyn ni wedi'i wneud yn dda, bydd hyn yn ein helpu i werthuso darpariaeth ein gwasanaethau a sut y gallwn adeiladu ar, a rhannu unrhyw arfer dda. Rydym hefyd yn croesawu canmoliaeth i aelod o staff neu dîm fel y gallwn gydnabod a dathlu eu harfer dda. Gweler isod sut i gyflwyno canmoliaeth.

Bydd pob canmoliaeth, sylwadau a chwynion yn cael eu cofnodi a'u cyfeirio at y tîm/staff perthnasol yn Uchelgais Gogledd Cymru.

Sylwadau

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ynghylch sut y gallwn wella ein gwasanaethau neu unrhyw bryderon sydd gennych am unrhyw agwedd ar ein gwaith.

Gallwch gyflwyno canmoliaeth neu sylw drwy:

- Ofyn am gopi o'n ffurflen gan y person rydych eisoes mewn cysylltiad ag ef
- Defnyddiwch y ffurflen ar ein gwefan yn **XXXXXXXXX (yn aros i ddatblygu'r dudalen wefan)**
- E-bostiwch ni - info@ambitionnorth.wales
- Ysgrifennwch lythyr atom yn: Uchelgais Gogledd Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ

Dalier sylw, efallai na fyddwn yn gallu ymateb i bob canmoliaeth a sylw.

Cwynion

Pryd i ddefnyddio'r polisi:

Pan fyddwch yn mynegi eich pryderon neu'n cwyno i ni, byddwn fel arfer yn ymateb yn y ffordd a amlinellir o dan 'Sut i wneud cwyn'.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i gwynion corfforaethol am wasanaethau Uchelgais Gogledd Cymru. Nid yw'n berthnasol lle mae proses statudol, gyfreithiol, cytundebol, Adnoddau Dynol, llywodraethu neu apêl ar wahân ar gael neu'n fwy priodol. Pan fydd hyn yn wir, byddwn yn ceisio cyfeirio'r achwynydd i'r broses gywir.

Dalier sylw, nad yw'r polisi hwn yn gymwys:

- Os oes gennych gais am Ryddid Gwybodaeth neu bryder neu gŵyn ynghylch Diogelu Data. Dylid cyfeirio'r materion hyn at Swyddog Diogelu Data Uchelgais Gogledd Cymru. Gallwch gysylltu â nhw drwy
- E-bost: ****** (Cyfeiriad e-bost y DPO)**
- Neu yn ysgrifenedig: Uchelgais Gogledd Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.
- Os hoffech fynegi pryder neu wneud cwyn am Aelod (neu aelod o Is-bwyllgor) o Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a allai fod wedi torri Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion)(Cymru) 2001, dylech gyflwyno pryder neu gŵyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Mae rhagor o wybodaeth am wneud cwyn ar gael ar wefan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): [Yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am ymddygiad cynghorydd lleol | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru](#)
- Gallwch hefyd gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus dros y ffôn: 0300 790 0203

Sut i wneud cwyn:

Mae dau gam i drefn gwyno Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i uwch-gyfeirio materion difrifol yn syth i Gam 2 os yw'n teimlo bod hyn yn angenrheidiol yn seiliedig ar natur a difrifoldeb y gŵyn a godwyd.

Cam 1: Datrysiaid cynnar (anffurfiol)

Os yn bosibl, credwn ei bod yn well delio â phethau ar unwaith. Os oes gennych bryder, codwch ef gyda'r person rydych chi'n delio ag ef. Byddant yn ceisio ei ddatrys i chi yn y fan a'r lle.

Os na ellir datrys y mater ar unwaith, bydd yn cael ei drin fel cwyn Cam 1.

Bydd cwynion Cam 1 fel arfer yn cael eu hystyried gan y rheolwr tîm perthnasol neu swyddog arweiniol priodol arall o fewn maes y rhaglen dan sylw, a hynny o fewn 10 diwrnod gwaith.

Byddem yn disgwyl ymateb i gŵyn anffurfiol i:

- Gynnig ymddiheuriad lle bo'n briodol
- Cyngori pa gamau sydd i'w cymryd i wneud pethau'n iawn
- Adnabod unrhyw wersi a ddysgwyd; a
- Darparu gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon.

Os oes unrhyw wersi i'w dysgu o fynd i'r afael â'ch pryder, bydd y tîm perthnasol yn eu cofnodi ac yn eu tynnu at ein sylw. Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon â'r ymateb, gallwch wedyn benderfynu a ydych am wneud cwyn neu nodi pryder yn ffurfiol. Os ydych chi'n anfodlon â'r ymateb i ganlyniad Cam 1, efallai y bydd eich cwyn yn cael ei chyfeirio i Gam 2.

Cam 2: Pryder neu gŵyn ffurfiol.

Gallwch fynegi eich pryder neu eich cwyn yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Gofynnwch am gopi o'n ffurflen Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion gan y person rydych eisoes mewn cysylltiad ag ef. Dywedwch wrthynt eich bod am i ni ddelio â'ch pryder yn ffurfiol.
- Defnyddiwch y ffurflen Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion ar ein gwefan [yn XXXXXXXX](#)
- E-bostiwch ni - info@ambitionnorth.wales
- Ysgrifennwch lythyr atom yn: Uchelgais Gogledd Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.

Mae copïau o'r polisi hwn a'r ffurflen gwyno ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ar gyfer copïau print bras neu Braille neu sain, cysylltwch â info@ambitionnorth.wales.

Bydd cwynion fel arfer yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig; fodd bynnag, byddwn yn cefnogi unigolion sydd angen cymorth i gyflwyno cwyn mewn ffurf arall.

Delio â'ch pryder neu gŵyn:

- Byddwn yn cydnabod eich pryder neu'ch cwyn ffurfiol o fewn 5 diwrnod gwaith ac yn rhoi gwybod i chi sut rydym yn bwriadu delio ag ef.
- Byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym sut yr hoffech i ni gyfathrebu â chi a phenderfynu a oes gennych unrhyw ofynion – er enghraifft, os oes angen dogfennau mewn ffurf gwahanol arnoch er mwyn iddynt fod yn hygyrch. Byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau am gyfathrebu ysgrifenedig mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg.
- Byddwn yn ymdrin â'ch pryder mewn modd agored a gonest.
- Gallwn eich sicrhau na fyddwch o dan unrhyw anfantais wrth gysylltu â ni yn y dyfodol o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi mynegi pryder neu wedi cwyno, nac o ran ein cyfrifoldebau i chi.
- Os ydych chi'n mynegi pryder ar ran rhywun arall, byddwn angen eu cytundeb ysgrifenedig i chi weithredu ar eu rhan.

Fel arfer, byddwn ond yn gallu edrych ar eich pryderon os ydych chi'n dweud wrthym amdanynt o fewn 6 mis i'r mater godi. Y rheswm am hyn yw ei bod yn haws dwyn manylion i gof am ddigwyddiadau diweddar ac felly'n haws i ni ymchwilio i'ch pryderon. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y gallwn edrych ar bryderon a ddaw i'n sylw yn hwyrach na hyn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i chi esbonio pam nad ydych wedi gallu dod â'r mater i'n sylw yn gynharach, a bydd angen i ni gael digon o wybodaeth am y mater i'n galluogi i'w ystyried yn iawn. Beth bynnag, ni fyddwn yn ystyried unrhyw bryderon am faterion a ddigwyddodd fwy na 12 mis yn ôl.

Ymchwiliad

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pwy fydd yn edrych ar eich pryder neu gŵyn.

Fel arfer, bydd cwynion Cam 2 yn cael eu hystyried gan gyfarwyddwr neu uwch swyddog Uchelgais Gogledd Cymru nad yw wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mater y cwynwyd amdano. Lle bo hynny'n briodol, gall y Prif Weithredwr benodi uwch swyddog addas arall i ymchwilio neu ymateb.

Byddwn yn nodi ein dealltwriaeth o'ch pryderon ac yn gofyn i chi gadarnhau bod hyn yn gywir. Byddwn hefyd yn gofyn i chi ddweud wrthym pa ganlyniad rydych chi'n gobeithio ei gyflawni.

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eglurhad am eich cwyn yn ystod yr ymchwiliad. Os na fyddwn yn derbyn ymateb o fewn 28 diwrnod gwaith, bydd y gŵyn yn cael ei chau, a byddwn yn ysgrifennu atoch i egluro hyn.

Fel arfer, bydd angen i'r swyddog sy'n ymchwilio i'ch cwyn gael mynediad at ffeiliau perthnasol a gedwir gan Uchelgais Gogledd Cymru. Os nad ydych yn dymuno i hyn ddigwydd, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym cyn gynted â phosibl.

Pan fydd ateb syml ar gael, efallai y byddwn yn gofyn a ydych yn fodlon derbyn hyn yn hytrach na bwrw ymlaen ag ymchwiliad llawn, a allai gymryd mwy o amser ac adnoddau.

Byddwn yn anelu at ymateb i gwynion Cam 2 cyn gynted â phosibl, ac rydym yn disgwyl delio â'r mwyafrif o fewn 20 diwrnod gwaith. Pan nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft os yw'ch cwyn yn fwy cymhleth, neu pan fo angen ymchwiliad pellach yn rhesymol, bydd y swyddog sy'n ymchwilio i'ch cwyn yn:

- Rhoi gwybod i chi o fewn 20 diwrnod gwaith pam fod angen mwy o amser gan darparu amserlen ddiwygiedig (ni ddylai hyn fod yn hwy na 3 mis o ddyddiad eich cwyn wreiddiol).
- Yn gadael i chi wybod am gynnydd yr ymchwiliad a rhoi diweddariad i chi os yw'r amserlen yn newid.

Bydd y swyddog sy'n ymchwilio yn anelu at sefydlu'r ffeithiau yn gyntaf. Bydd cwmpas yr ymchwiliad yn dibynnu ar ddifrifoldeb a chymhlethdod y materion a godwyd. Ar gyfer achosion mwy cymhleth, byddwn yn paratoi cynllun ymchwilio.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn gofyn i'ch cyfarfod i drafod eich pryderon. Weithiau, efallai y byddwn yn awgrymu cyfryngu neu ddull priodol arall i helpu i ddatrys y mater.

Byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, a all gynnwys gwybodaeth rydych chi wedi'i darparu, ffeiliau achos, nodiadau sgysiaiu, gohebiaeth, negeseuon e-bost neu ddeunyddiau eraill sy'n berthnasol i'ch pryder. Lle bo angen, byddwn hefyd yn siarad â staff neu eraill sy'n gysylltiedig ac yn adolygu ein polisïau, ein canllawiau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Cwyn sy'n ymwneud â mwy nag un sefydliad

Os yw eich cwyn yn cwmpasu mwy nag un sefydliad, er enghraifft, Uchelgais Gogledd Cymru ac un o'i Awdurdodau cyfansoddol, byddwn yn gweithio gyda nhw i benderfynu pwy ddylai ddelio â'r mater. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pwy fydd yn gyfrifol am gyfathrebu â chi tra bod eich cwyn yn cael ei hystyried a phryd y gallwch ddisgwyl canlyniad.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â chorff sy'n gweithio ar ein rhan, er enghraifft, cwmni sydd wedi'i gcontractio gan Uchelgais Gogledd Cymru, efallai yr hoffech godi'r mater yn anffurfiol gyda nhw yn gyntaf. Fodd bynnag, os hoffech godi'r mater gyda ni ar sail ffurfiol, byddwn yn edrych ar y gŵyn ac yn ymateb i chi.

Canlyniad

Os ymchwilir i'ch cwyn yn ffurfiol, byddwn yn rhoi gwybod ein canfyddiadau i chi. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig yn esbonio sut a pham y gwnaethom ddod i'n casgliadau.

Os ydym yn canfod ein bod wedi gwneud camgymeriad, byddwn yn esbonio beth ddigwyddodd a pham. Pan fyddwn yn nodi diffygion yn ein systemau neu'r ffordd rydyn ni'n gweithio, byddwn yn dweud wrthyf beth yw'r diffygion hynny ac yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w hatal rhag digwydd eto. Pan fydd camgymeriad wedi digwydd, byddwn bob amser yn cynnig ymddiheuriad.

Gwneud pethau yn iawn

Os na wnaethom ddarparu gwasanaeth yr oedd gennych hawl i'w dderbyn, byddwn yn ceisio ei ddarparu cyn gynted â phosibl, lle bo hynny'n bosibl. Os na wnaethom rywbeth yn dda, byddwn yn cymryd camau i'w gywiro a phryd y bydd hyn yn digwydd.

Os ydych wedi dioddef colled o ganlyniad i'n camgymeriad, byddwn yn ceisio lle bo hynny'n briodol, i'ch adfer i'r sefyllfa y byddech wedi bod ynnddi pe bai pethau wedi'u gwneud yn gywir.

Os gwnaethoch dalu am wasanaeth y dylem fod wedi ei ddarparu neu os oedd gennych hawl i gyllid na chawsoch chi, byddwn yn ceisio ad-dalu'r gost neu wneud y taliad priodol.

Yr Ombwdsmon

Os na fydd eich cwyn yn cael ei datrys yn eich barn chi, gallwch gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth ac yn medru ymchwilio i'ch cwyn os y credwch eich bod chi, neu'r person rydych yn cwyno ar eu rhan:

- Wedi cael eu trin yn annheg neu wedi derbyn gwasanaeth gwael trwy ryw fethiant ar ran y darparwr gwasanaeth
- Wedi bod dan anfantais bersonol gan fethiant gwasanaeth neu wedi cael eu trin yn annheg

Mae'r Ombwdsmon yn disgwyl i chi fynegi'ch pryderon i ni yn gyntaf, er mwyn rhoi cyfle i ni wneud yn iawn am hynny.

Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon drwy:

- Ffôn: 0300 790 0203
- E-bost: gofyn@ombwdsmon.cymru
- Y wefan: www.ombwdsmon.cymru
- Ysgrifennu at: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

Gwneud cwyn am ein gwasanaethau Cymraeg

Bydd cwynion mewn perthynas â'r Gymraeg yn dilyn yr un gweithdrefnau a amlinellir yn y polisi hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd yr ydym yn ymateb i'ch cwyn ynglŷn â'r Gymraeg neu os yw eich rhyddid i siarad Cymraeg wedi'i wrthod, gallwch gwyno'n uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@cyg-wlc.cymru
- Gwefan: [Ffurflen Cwynion](#)
- Comisiynydd y Gymraeg, Swyddfa Caernarfon

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

Dysgu Gwersi

Rydym yn cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifri ac yn ceisio dysgu o unrhyw gamgymeriadau rydyn ni wedi'u gwneud. Mae ein Uwch Dîm Rheoli yn ystyried crynodeb o'r holl gwynion ac yn cael ei wneud yn ymwybodol o bob pryder neu gwynion difrifol sydd angen ymchwiliad.

Lle mae angen newid sylweddol, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud, pwy fydd yn ei wneud a phryd yr ydym yn bwriadu ei wneud. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pryd fydd y newidiadau a addawyd gennym wedi'u cwblhau.

Monitro Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion

Bydd yr holl ganmoliaethau, sylwadau a chwynion sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn cael eu cofnodi gan Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd yr Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol yn gyfrifol am oruchwylio cofnodi ac adolygu cwynion.

Bydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth UGC a'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried crynodeb o'r holl gwynion a dderbyniwyd bob 6 mis, a manylion unrhyw argymhellion difrifol lle mae gwelliannau gwasanaeth wedi'u nodi.

Beth fyddwn ni yn ei ddisgwyl gennych chi

Credwn fod gan bob achwynydd yr hawl i gael ei glywed, ei ddeall a'i barchu. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn bod gan ein staff yr un hawliau. Rydym felly yn disgwyl i chi fod yn gwrtais a pharchus wrth ddelio â ni. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol neu ddifriol, gorchmynion afresymol na dyfalbarhad afresymol.

Canmoliaethau, Sylwadau a Ffurflen Gwyno (ar gael fel dogfen Word, PDF ac fel ffurflen ar-lein)

Yn Uchelgais Gogledd Cymru, rydym yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Ein nod yw rhoi pobl yng nghanol popeth a wnawn.

Rydym yn croesawu eich adborth am y gwasanaethau rydych chi wedi'u derbyn. Mae eich profiad yn ein helpu i ddeall beth rydyn ni'n ei wneud yn dda a ble mae angen i ni wella.

Mae eich adborth yn bwysig i ni. Rydym yn defnyddio eich sylwadau a'ch mewnbwn i'n helpu i wella ein gwasanaethau i bawb. Llenwch y ffurflen hon i gyflwyno'ch canmoliaeth, eich sylw neu eich cwyn:

A. Eich manylion:

Cyfenw:

Enw(au) Cyntaf:

Teitl: Mr / Mrs /
Miss / Ms / os arall,
nodwch os gwelwch
yn dda.

Cyfeiriad a chod post:

Cyfeiriad E-bost:

Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd:

Rhif ffôn symudol:

Nodwch pa un o'r dulliau uchod y byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi:

Eich gofynion: os yw ein ffordd arferol o ddelio â'r broses hon yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio ein gwasanaeth, dywedwch wrthym fel y gallwn drafod sut y gallem eich helpu.

Fel arfer, y person a brofodd y sefyllfa ddylai llenwi'r ffurflen hon.

Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, llenwch Adran B. Dalier sylw, cyn ymgymryd â'r mater, bydd angen i ni fodloni ein hunain bod gennych yr awdurdod i weithredu ar ran y person dan sylw.

B. Llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall.

Eu
manylion:

Cyfenw:

Enw(au) Cyntaf:

Teitl: Mr / Mrs / Miss
/ Ms / os arall,
nodwch os gwelwch
yn dda.

Cyfeiriad a chod post:

Beth yw eich perthynas â nhw?

Pam ydych chi'n cysylltu â ni ar eu rhan?

C. Beth yw eich rheswm/rhesymau dros gysylltu â ni? (Parhewch â'ch atebion i'r cwestiynau canlynol ar daflen(ni) ar wahân os oes angen)

- Canmoliaeth
- Sylw
- Cwyn
- Arall

C1.

Enw'r Gwasanaeth/Swyddog perthnasol dan sylw:

C2. Beth yn eich barn chi a wnaed yn dda, neu beth na wnaed yn dda neu beth y gellid ei wella?

C3. Disgrifiwch sut mae hyn wedi effeithio arnoch chi'n bersonol:

C4. Os ydych chi'n gwneud cwyn, beth yn eich barn chi ddylai Uchelgais Gogledd Cymru ei wneud i wneud pethau'n iawn?

C5. Pryd wnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r sefyllfa am y tro cyntaf? (Os ydych chi'n gwneud cwyn ac mae'n fwy na 6 mis ers i chi ddod yn ymwybodol o'r sefyllfa am y tro cyntaf, rhowch y rheswm pam nad ydych wedi cysylltu â ni o'r blaen):

C6. Ydych chi eisoes wedi rhannu eich sylwadau gyda'r staff rheng flaen sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth? Os felly, rhowch fanylion byr am sut a phryd y gwnaethoch hynny:

Os oes gennych unrhyw ddogfennau perthnasol i gefnogi eich cais, atodwch nhw i'r ffurflen hon.

Llofnod:

Dyddiad:

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, anfonwch hi at:- info@ambitionnorth.wales

Sut ydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Rydym yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn delio â'ch cwyn. Rydym yn gwneud hyn fel rhan o'n dyletswyddau fel corff cyhoeddus. Ni fydd eich manylion yn cael eu rhannu y tu allan i Uchelgais Gogledd Cymru heblaw pan fo angen gwneud hynny er mwyn datrys eich cwyn. I ddysgu pa mor hir rydym yn cadw eich data, cysylltwch â ni. **Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data:- XXXX (rhowch fanylion cyswllt y DPO yma)**



IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

4 Mehefin 2026

TEITL: Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf 2025/26

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y sefyllfa alldro derfynol 2025/26 ar gyfer y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, y Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cynllun Ynni Ardal Lleol), y Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i'w hystyried cyn cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) ar 19 Mehefin 2026.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

- 2.1. Ystyried y wybodaeth a'r penderfyniadau a geisiwyd yn Atodiad A.

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

- 3.1. Gofynnir i'r CBC dderbyn sefyllfa alldro 2025/26 a rhoddir cyfle i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y cynigion yn Atodiad A ac i graffu'r wybodaeth cyn i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r CBC.
-

ATODIADAU:

Atodiad A:	Adroddiad i gyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 19 Mehefin 2026
Atodiad 1:	Sefyllfa alldro y CBC 2025/26
Atodiad 2:	Sefyllfa alldro refeniw y Cynllun Twf 2025/26
Atodiad 3:	Sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf
Atodiad 4:	Sefyllfa cyfalaf y Cynllun Twf
Atodiad 5:	Sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi 2025/26
Atodiad 6:	Sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2025/26

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad yn rhoi cyfle priodol i'r Is-bwyllgor graffu ar sefyllfa alldro 2025/26 cyn ei ystyried gan y CBC. Dylai aelodau fod yn fodlon bod y wybodaeth a gyflawnir yn ddigonol i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus yn unol â Chyfansoddiad y CBC ac egwyddorion llywodraethu da.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.



CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

19 Mehefin 2026

TEITL: Sefyllfa alldro Refeniw a Chyfalaf 2025/26

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) sefyllfa alldro terfynol y CBC, Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cynllun Ynni Ardal Leol), Parth Buddsoddi a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer 2025/26.

2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. I nodi a derbyn sefyllfa alldro y CBC ar gyfer 2025/26 (Atodiad 1), gan gynnwys trosglwyddo £1,067,414 i'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi i ariannu cyllidebau'r dyfodol.

2.2. I nodi a derbyn sefyllfa alldro'r Cynllun Twf ar gyfer 2025/26 (Atodiad 2). Oherwydd y tanwariant a adroddwyd, mae hyn yn cynnwys peidio â ddefnyddio £60,990 o'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi a defnyddio swm llai o £867,731 o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i ddangos sefyllfa niwtral ar gyfer y flwyddyn.

2.3. I nodi a derbyn sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf (Atodiad 3).

2.4. I nodi a derbyn adolygiad cyfalaf diwedd flwyddyn y Cynllun Twf ar 31 Mawrth 2026 (Atodiad 4).

2.5. I nodi a derbyn sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi ar gyfer 2025/26 (Atodiad 5).

2.6. I nodi a derbyn sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ar gyfer 2025/26 (Atodiad 6).

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Hysbysu'r CBC a cheisio cymeradwyaeth o'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2025/26.

4. CEFNIDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddydd rôl a swyddogaethau y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC, a oedd yn cynnwys staff, adnoddau, ymrwymiadau ac asedau ariannol, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r cyllid. Trosglwyddwyd y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd i'r CBC ar yr un dyddiad.

- 4.2. Caiff y CBC ei ystyried yn "gorff perthnasol mwy" yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd). Golyga hyn y bydd Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu ar gyfer 2025/26 a'i gyflwyno maes o law.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Cyd-Bwyllgor Corfforedig

- 5.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad manwl o gwariant ac incwm y CBC fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol ar gyfer 2025/26.
- 5.2. Y sefyllfa alldro net ar gyfer 2025/26 oedd tanwariant o £1,067,414 ac mae hyn wedi cynyddu o'i gymharu â'r £959,205 a ragwelwyd yn adolygiad diwedd Rhagfyr 2025. Defnyddiwyd cyllid grant y CBC a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn rhannol i ariannu costau a oedd wedi'u cyllidebu yn flaenorol, felly cyfrannodd tuag at y tanwariant. Ceisir cymeradwyaeth i drosglwyddo'r tanwariant hwn i'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi i ariannu gwariant yn y blynyddoedd dilynol wrth i weithgareddau'r CBC a'i swyddogaethau gynyddu. Mae'r CBC eisoes wedi cymeradwyo i £624,590 o'r gronfa hon gael ei ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2026/27 yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

Gweithwyr

- 5.3. Y tanwariant terfynol ar gyfer y pennawd hwn yw £324,796.
- 5.4. Mae'r gwariant gweithwyr yn cynnwys y Prif Weithredwr (llawn amser ers mis Mehefin 2025, yn flaenorol ar secondiad o'r Cynllun Twf am 2 ddiwrnod yr wythnos), swyddi mewn Polisi, Cefnogaeth Corfforaethol a Gweithrediadau, cefnogaeth gan y Cynorthwyydd Personol, yr Arweinydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol, Rheolwr Prosiect Cyllid a'r Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol (2-3 diwrnod yr wythnos), a chostau staff ar secondiad i'r CBC. Mae'r tanwariant o £399,852 oherwydd swyddi yn cael eu llenwi yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol bresennol neu y disgwylir iddynt gael eu llenwi yn 2026/27. Mae'r tanwariant hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gorwariant ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan gostau sefydlu.
- 5.5. Mae gwariant o £46,200 ar y pennawd capasiti ychwanegol Swyddog Monitro gan fod Swyddog Monitro dros dro wedi'i benodi er mwyn cyflawni'r rôl yn llawn amser. Roedd y swyddogaeth yn flaenorol yn cael ei chyflawni ar sail rhan-amser gan y Pennaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro yng Nghyngor Gwynedd.
- 5.6. Mae recriwtio Prif Weithredwr llawn amser a swyddi ychwanegol wedi arwain at wariant ar hysbysebu, recriwtio a hyfforddiant.
- 5.7. Dechreuodd cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhagfyr 2025, gan arwain at danwariant yn y pennawd lwfans aelodau lleyg.

Teithio

- 5.8. Y lwfans teithio a chostau cynhaliaeth staff yw £1,402, sy'n rhoi tanwariant o £1,598 ar gyfer 2025/26.

Cyflenwadau a Gwasanaethau

- 5.9. Mae tanwariant net o £135,369 yn erbyn y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau.
- 5.10. Mae'r pennawd ymgynghorwyr allanol yn dangos tanwariant net o £72,463. Mae'r gorwariant ar yr is-bennawd Trafnidiaeth yn cael ei ariannu o'r Grant Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n cael ei ddangos yn yr adran incwm. Y gyllideb ar gyfer ymgynghorwyr allanol ar gyfer Cynllunio Strategol oedd £132,500, fodd bynnag, oherwydd oedi yn y cytundebau, disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn 2026/27.
- 5.11. Mae'r prif danwariant eraill yn ymwneud ag yswiriant a systemau. Mae'r gost yswiriant wirioneddol ar gyfer 2025/26 yn llai na'r cyllideb ac mae'r rhan fwyaf o'r gost wedi'i dosrannu rhwng y CBC a'r Cynllun Twf yn seiliedig ar gostau cyllideb gweithwyr, felly yn arwain at danwariant i'r CBC. Cynhwyswyd cyllideb systemau i dalu'r costau sefydlu cychwynnol yn ogystal â ffi flynyddol ar gyfer System Rheoli Pwyllgorau; fodd bynnag, disgwylir nawr i hyn gael ei weithredu yn 2026/27.
- 5.12. Mae'r gorwariant o £16,256 yn eiddo yn ymwneud â chostau gofod swyddfa ychwanegol ac ail-leoli dodrefn swyddfa.

Gwasanaethau Cefnogol

- 5.13. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £79,923 gan fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y CBC a Chyngor Gwynedd eto i'w gwblhau.
- 5.14. Mae gorwariant ar y pennawd gwasanaethau corfforaethol oherwydd galw ar wasanaethau cyfieithu.
- 5.15. Mae'r tanwariant ar penawdau cyfreithiol a chefnogaeth democrataidd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gorwariant ar y costau cyfreithiol a democrataidd gan ymgynghorwyr allanol a ddangosir o dan gostau sefydlu.

Costau Sefydlu

- 5.16. Mae'r gwariant ar cyfreithiol a democrataidd ac ymgynghorwyr allanol yn ymwneud â'r cefnogaeth ar weithredu'r CBC, ac mae'r gefnogaeth wedi parhau y tu hwnt i'r cyfnod contractio cychwynnol fel rhan o drawsnewid y CBC, gan arwain at orwariant o £148,491 o'i gymharu â'r gyllideb.

Incwm

- 5.17. Roedd y CBC yn llwyddiannus yn ei gais i Lywodraeth Cymru am gyllid tuag at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Cynllun Datblygu Strategol a chefnogaeth gweithredu'r CBC, gyda £200,000 wedi'i ddyfarnu ar gyfer y tri phennawd yn 2025/26.
- 5.18. Derbyniwyd £74,219 o incwm llog ar gyfer 2025/26.
- 5.19. Cymeradwywyd yr ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol ar gyfer 2025/26 gan y CBC yn ei gyfarfod ar 17 Ionawr 2025.

Cronfeydd wrth gefn

- 5.20. Y balans cronfa wrth gefn wedi'i glustnodi ar 31 Mawrth 2025 oedd £1,112,671, a dyrannwyd £564,740 o'r gronfa i gyllideb 2025/26 i roi balans o £547,931.
- 5.21. Yn 2024/25, defnyddiwyd £83,067 o gronfa wrth gefn y CBC i ariannu gwariant y Parth Buddsoddi wrth aros am gymeradwyaeth y Llywodraeth i'r grant Parth Buddsoddi. Derbyniwyd y grant yn 2025/26 ac mae £20,662 wedi'i ad-dalu i gronfa wrth gefn y CBC, gyda'r balans sydd yn weddill i'w ad-dalu yn ystod 2026/27.
- 5.22. Mae trosglwyddo'r tanwariant o £1,067,414 i'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi yn rhoi balans o £1,636,007 ar 31 Mawrth 2026. Mae £624,590 o'r gronfa wedi'i glustnodi ar gyfer cyllideb 2026/27, yn ogystal â chyfran wedi'i ddyrannu tuag at gefnogi'r Cynllun Datblygu Strategol yn y blynyddoedd i ddod.

Cynllun Twf (gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol)

- 5.23. Mae Atodiad 2 yn darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm gwirioneddol fesul pennawd yn erbyn cyllideb 2025/26.
- 5.24. Y sefyllfa alldro net terfynol ar gyfer 2025/26 oedd tanwariant o £543,259, ac mae hyn wedi gostwng o'r tanwariant o £618,025 a ragwelwyd yn adolygiad diwedd Rhagfyr 2025. Roedd y gyllideb ac adolygiad Rhagfyr 2025 yn cynnwys £412,085 o'r gronfa adnoddau; fodd bynnag, fel y dangosir yn Atodiad 2, defnyddiwyd £79,162 ac mae hyn wedi ariannu rolau llywodraeth ychwanegol. Mae'r gostyngiad yn y defnydd o'r gronfa adnoddau wedi gwrthbwyso tanwariant pellach mewn penawdau cyllideb gwahanol.
- 5.25. Er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn, gofynnir i'r CBC beidio â defnyddio £60,990 o'r gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi ac i gymeradwyo swm llai o £867,731 (o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol o £1,350,000) o'r grant Cynllun Twf i'w ddefnyddio i ariannu'r gwariant refeniw yn 2025/26.

Swyddfa Rheoli Portffolio

- 5.26. Mae tanwariant o £761,218 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio ac mae'r prif danwariant yn cael ei ddangos ar y pennawd gwariant gweithwyr a rolau llywodraeth ychwanegol.
- 5.27. Y tanwariant ar y pennawd gwariant gweithwyr yw £655,371 ac mae hyn oherwydd bod rhai costau staff a oedd wedi'u cynnwys yn y gyllideb graidd wedi'u hariannu gan ffynonellau eraill.
- 5.28. Mae bron i £90,000 o'r tanwariant yn deillio o staff sy'n gweithio cyfran o'u hamser ar y CBC, mae tua £39,000 yn ymwneud â staff sy'n gweithio ar y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac mae tua £156,400 yn ymwneud â staff a ariannwyd gan brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru.
- 5.29. Defnyddiwyd grantiau Cronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Ynni Ardal Leol a dderbyniwyd hefyd i ariannu costau staff, sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu bron i £153,300 o'r tanwariant.
- 5.30. Ddarau swyddi gwag yn ystod y flwyddyn hefyd arwain at danwariant pellach o tua £254,500 mewn gwariant gweithwyr. Mae rhan o'r tanwariant hwn wedi'i ddefnyddio i ariannu costau

ymgyngorydd allanol dros dro i gefnogi'r Rhaglen Ynni y tu hwnt i'r grant Cynllun Ynni Ardal Leol.

- 5.31. Cafodd rolau llywodraeth ychwanegol eu llenwi yn ystod y flwyddyn, gan arwain at danwariant o £127,518.
- 5.32. Ddarau recriwtio ychwanegol, gan gynnwys recriwtio Cyfarwyddwr Portffolio, arwain at orwariant o £20,932 mewn costau hysbysebu ac asesu ymgeiswyr.
- 5.33. Roedd gorwariant o £11,610 ar gyflenwadau a gwasanaethau oherwydd uwchraddio offer ac offer ar gyfer staff newydd.
- 5.34. Mae'r pennawd yswiriant yn dangos gorwariant o £11,800 oherwydd rhesymau a nodir yn 5.11. Er bod y gyllideb systemau wedi'i chynnwys i ariannu costau'r System Rheoli Pwyllgorau (disgwyllir i hyn cael ei weithredu yn 2026/27), mae gwariant wedi'i wneud ar blatfform a datblygu system rheoli prosiectau.

Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol

- 5.35. Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £82,056 gan fod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y CBC a Chyngor Gwynedd eto i'w gwblhau. Dosrannwyd cymorth ariannol a chyfreithiol i'r Parth Buddsoddi hefyd yn ystod y flwyddyn, gan gyfrannu at y tanwariant ar gyfer y Cynllun Twf.

Cyd-bwyllgor

- 5.36. Mae pennawd y Cyd-bwyllgor yn dangos tanwariant o £27,456, gyda thanwariant mewn cymorth cyfreithiol allanol, ffioedd cyllidol allanol yn ogystal â'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

Prosiectau

- 5.37. Y gorwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £58,704. Mae gorwariant mewn costau cefnogaeth gyfreithiol allanol ar nifer o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf, fodd bynnag, mae tanwariant ar gostau datblygu achosion busnes y prosiectau, cefnogaeth gyllidol allanol, cefnogaeth caffael allanol a chostau sicrwydd.
- 5.38. Mae penawdau cyflawni prosiectau a chyflawni prosiectau - gweithwyr yn ymwneud â gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac sy'n cael eu hystyried fel gwariant refeniw. Mae'r gwariant ar y penawdau hyn yn cael ei ariannu gan ddyraniad Cynllun Twf y prosiectau ac mae hyn yn cael ei ddangos yn yr adran Incwm.

Cynlluniau Grant

- 5.39. Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys prosiectau Cynllun Ynni Ardal Leol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a ariennir gan grant ac roedd tanwariant o £31,989. Cafwyd cadarnhad yn ystod y flwyddyn ariannol y gellir hawlio'r cyllid ar gyfer y Gronfa Ffyniant Cyffredin hyd at fis Medi 2026 ac felly bydd y tanwariant o £31,986 yn cael ei wario a'i hawlio yn 2026/27.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd

- 5.40. Mae'r rhan trosglwyddiadau i gronfeydd yn cynnwys £108,380 o gyfraniadau llog partneriaid a £24,679 o daliadau mynediad at gyllid ar brosiectau'r Cynllun Twf, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r gronfa llog i ariannu cost benthyca yn y blynyddoedd i ddod.
- 5.41. Yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 14 Chwefror 2025, cymeradwywyd cais gan y Swyddfa Rheoli Portffolio i drosglwyddo'r llog a dderbyniwyd yn 2024/25 a 2025/26 ar falansau grant Cynllun Twf Gogledd Cymru i gronfa benodol i ariannu gofynion ychwanegol y llywodraeth a chostau datblygu prosiectau o 2025/26 a chadw capasiti y Swyddfa Rheoli Portffolio am ddwy flynedd ychwanegol y tu hwnt i Mawrth 2026. Y llog a dderbyniwyd ar falansau oedd £1,833,295 a bydd £1,635,549 o'r balans hwn yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa hon (cronfa adnoddau) tra bydd y £197,746 sy'n weddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa llog.

Cyfraniadau Ariannu

- 5.42. Mae'r prif ffrydiau incwm ar gyfer 2025/26 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (dyraniad refeniw ac ariannu costau staff prosiectau a chostau cyflawni prosiectau), grant ynni Llywodraeth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi a'r gronfa adnoddau.
- 5.43. Y defnydd o'r grant Cynllun Twf ar gyfer prosiectau yw £239,795 o'i gymharu â'r gyllideb o £116,675. Mae hyn oherwydd bod y grant yn ariannu 50% o gostau staff a oedd wedi'u hariannu 100% gan grant ynni Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol, cynnydd yn nifer y staff a benodwyd ar gyfer prosiectau digidol a gwariant ar brosiectau Cynllun Twf Uchelgais Gogledd Cymru sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd.
- 5.44. Oherwydd bod y sefyllfa alldro net derfynol ar gyfer 2025/26 yn danwariant o £543,259, ac er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn, cynigir na ddefnyddir y gronfa wrth gefn wedi'i glustnodi o £60,990 (felly ar gael i'w defnyddio ar gyfer cyllidebau blynyddoedd i ddod) a'r dyraniad grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei leihau £482,269 o £1,350,000 i £867,731. Er bod grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae'r un hyblygrwydd ag awdurdodau lleol wedi cael ei ddefnyddio yn y ffordd y maent yn rheoli eu cyllid cyfalaf, gyda Cyngor Gwynedd yn dyrannu y grant Cynllun Twf yn erbyn ei brosiectau cyfalaf ac yn rhyddhau gwerth refeniw cyfatebol i'r Cynllun Twf i ariannu ei wariant refeniw.

Cronfeydd wrth gefn

- 5.45. Mae Atodiad 3 yn dangos y symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn a'r balansau ar 31 Mawrth 2026.
- 5.46. Cyfanswm y balans cronfa wrth gefn wedi'i glustnodi ar 31 Mawrth 2026 oedd £210,977.
- 5.47. Balans y gronfa prosiectau ar 31 Mawrth 2025 oedd £29,167. Yn 2024/25, talwyd costau o £123,133 yn ymwneud â'r Prosiect Ynni Lleol Glân o'r gronfa gan fod yr Achos Busnes Llawn eto i'w gymeradwyo erbyn 31 Mawrth 2025. Mae'r Achos Busnes Llawn bellach wedi'i gymeradwyo, felly mae £123,133 o grant y Cynllun Twf wedi'i drosglwyddo i'r gronfa.
- 5.48. Mae'r gronfa llog wedi'i neilltuo i ariannu cost benthyca yn y blynyddoedd i ddod. Ei balans ar 31 Mawrth 2026 yw £5,064,288 ac mae hyn yn cynnwys cyfraniadau llog partneriaid o £108,380, taliadau mynediad at gyllid o £24,679 a £197,746 o incwm llog ar balans y gronfa.

- 5.49. Dyrannwyd £412,085 o'r gronfa adnoddau i gyllideb 2025/26 ond dim ond £79,162 a ddefnyddiwyd ac roedd hyn i ariannu rolau llywodraeth ychwanegol. Arweiniodd y tanwariant ar wariant gweithwyr a chostau datblygu prosiectau a phenodi rolau llywodraeth ychwanegol yn ystod y flwyddyn at lai o gyllid ei angen o'r gronfa.
- 5.50. Derbyniwyd llog o £1,635,549 ar grant y Cynllun Twf a'r balans cronfa adnoddau ac felly balans y gronfa ar 31 Mawrth 2026 oedd £4,356,618. Cymeradwyodd y CBC yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026 i ddefnyddio £986,730 o'r gronfa hon fel rhan o gyllideb 2026/27.

Cyfalaf

- 5.51. Mae Atodiad 4 yn dangos adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2025/26.
- 5.52. Cyfanswm y gwariant hyd at 31 Mawrth 2026 yw £30.64m.
- 5.53. Mae gostyngiad net o £14.28m yn y gwariant ar gyfer 2025/26 ac mae hyn oherwydd llithriad ar brosiectau. Fodd bynnag, mae gwariant ar brosiect Cydnerth wedi digwydd yn gynt gyda chyfanswm y gwariant o £8.87m yn cael ei ddangos o dan 2025/26 yn hytrach na rhwng dwy flynedd ariannol fel yr oedd wedi'i broffilio'n wreiddiol yn y gyllideb ac felly yn lleihau'r llithriad.
- 5.54. Mae'r gwariant yn Atodiad 4 hefyd yn cynnwys costau cyflawni prosiectau a ddangosir yn Atodiad 2 – mae rhain yn ymwneud â phrosiectau Gronfa Ynni Glân, 4G+, LPWAN a Di-wifr Uwch.
- 5.55. Mae'r gyllideb o 2.15% ar gyfer cyllido referniw yn 2025/26 hefyd wedi gostwng i £0.87m i adlewyrchu y ffigurau alldro referniw terfynol.

Parth Buddsoddi

- 5.56. Cyhoeddwyd cymeradwyaeth derfynol Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam gan Lywodraethau'r DU a Chymru yng Nghyllideb 2025 a dros ddeng mlynedd y Parth Buddsoddi, mae cyfanswm o £6.4m ar gael i gefnogi gweinyddiaeth y rhaglen. O'r dyraniad hwn, dyrennir £200,000 y flwyddyn i'r CBC a £220,000 yr un i Gyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Derbyniwyd cyllid 2025/26 ym Mawrth 2026.
- 5.57. Mae Atodiad 5 yn darparu dadansoddiad o wariant ac incwm gwirioneddol y Parth Buddsoddi, gyda sefyllfa alldro niwtral ar gyfer 2025/26.
- 5.58. Mae gwariant y CBC ar y Parth Buddsoddi yn cynnwys £51,839 ar weithwyr (amser y Prif Weithredwr, Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol a Rheolwr Prosiect Porth Sgiliau a Chyflogadwyedd), £457 ar gyflenwadau a gwasanaethau, £29,644 ar wasanaethau cefnogaeth (cyfieithu a chefnogaeth ariannol a chyfreithiol) a £131,834 ar ymgynghorwyr allanol. Dyfarnwyd £25,000 i'r CBC yn ystod y flwyddyn ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cefnogaeth ymgynghorol.
- 5.59. Y grant Parth Buddsoddi a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2026 yw £430,220. Mae hyn yn cynnwys £200,000 o ddyraniad blynyddol y CBC a £230,220 o wariant Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- 5.60. Gwariant y Parth Buddsoddi ar gyfer 2024/25 oedd £83,067 ac ariannwyd hyn gan gronfa y CBC. Mae £20,662 wedi'i ad-dalu i'r gronfa o weddill dyraniad grant blynyddol y CBC a'r llog a

dderbyniwyd ar falans y grant yn 2025/26. Bydd y £62,405 sy'n weddill yn cael ei ad-dalu o log a dderbyniwyd yn 2026/27.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

- 5.61. Mae Atodiad 6 yn darparu dadansoddiad o wariant ac incwm gwirioneddol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn erbyn ei chyllideb 2025/26.
- 5.62. Mae'r alldro yn sefyllfa niwtral, gyda'r gwariant o £290,000 yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru.
- 5.63. Roedd £346,422 yn y gronfa sgiliau ar 31 Mawrth 2026 i ariannu ymrwymadau yn y maes sgiliau yn y blynyddoedd dilynol.

6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

- 6.1. Cyflwynwyd atodiadau'r Cynllun Twf o'r adroddiad hwn i'r Bwrdd Portffolio ar 24 Ebrill 2026, ac fe'u cyflwynwyd hefyd, ynghyd ag atodiadau'r Parth Buddsoddi a'r Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd ar 15 Mai 2026.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 7.1. Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi bod cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwilio gan archwilydd allanol a gymeradwyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 7.2. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Lle mae'r Incwm neu wariant blynyddol dros £2.5m, pennir bod y cyd-bwyllgor yn "gorff perthnasol mwy" a bydd angen paratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Cyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

ATODIADAU:

Atodiad 1	Sefyllfa alldro y CBC 2025/26
Atodiad 2	Sefyllfa alldro refeniw y Cynllun Twf 2025/26
Atodiad 3	Sefyllfa cronfeydd y Cynllun Twf
Atodiad 4	Sefyllfa cyfalaf y Cynllun Twf
Atodiad 5	Sefyllfa alldro y Parth Buddsoddi 2025/26
Atodiad 6	Sefyllfa alldro y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2025/26

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae'r goblygiadau cyfreithiol wedi'u nodi yn yr Adroddiad. Mae'r argymhellion o fewn swyddogaethau'r CBC ac yn ymwneud â stiwardiaeth ariannol briodol, cyfrifyddu diwedd blwyddyn a rheoli cronfeydd wrth gefn.

Dylai aelodau fod yn fodlon bod y driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a chyllid grant yn dryloyw, wedi'i gofnodi yn briodol ac yn gyson â fframwaith cyllidebol cymeradwy y CBC. Dylai unrhyw eitemau a ohiriwyd i 2026/27 barhau i gael eu monitro trwy drefniadau adrodd ariannol, archwilio a pherfformiad arferol y CBC.

Yn amodol ar gadarnhad y Swyddog Cyllid Statudol o'r sefyllfa ariannol, nid oes unrhyw faterion cyfreithiol neu lywodraethu pellach yn deillio o'r argymhellion.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.

Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2025/26

Atodiad 1

Gwariant	Cyllideb				Sefyllfa Terfynol				Gowraint / (Fanwariant)
	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cyfanswm Cyllideb	Cynllunio Strategol	Trafnidiaeth	Cyd-Bwyllgor Corfforedig	Cyfanswm Gwariant	
(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	
Gweithwyr									
Gwariant Gweithwyr (Cyfoe, Y.G. a Blywydd-dal)	226,230	112,970	428,880	768,080	109,143	61,291	197,794	368,228	(399,852)
Capasiti Ychwanegol Swyddog Monitro	0	0	0	0	0	0	46,200	46,200	46,200
Hysbyseb ac Asesu Ymgaiswyr	0	0	0	0	0	0	25,779	25,779	25,779
Hyfforddiant	0	0	0	0	0	0	3,838	3,838	3,838
Lwfans aelodau lleyg	0	0	1,230	1,230	0	0	469	469	(761)
Cyfanswm Gweithwyr	226,230	112,970	430,110	769,310	109,143	61,291	274,080	444,514	(324,796)
Teithio									
Teithio a chynhallaeth	940	400	1,660	3,000	82	0	1,320	1,402	(1,598)
Cyfanswm Teithio	940	400	1,660	3,000	82	0	1,320	1,402	(1,598)
Cyflenwadau a gwasanaethau									
Eiddo	0	0	0	0	0	0	16,256	16,256	16,256
Offer a chyfarpar	3,440	1,470	6,090	11,000	11	891	9,385	10,287	(713)
Cyflenwadau amrwiliol	940	400	1,660	3,000	606	810	2,380	3,796	796
Marchnata	0	0	0	0	0	0	5,750	5,750	5,750
Costau Banc	0	0	0	0	0	0	1,141	1,141	1,141
Ymgysylltu a chyfarfodydd	930	1,160	2,780	4,870	90	0	1,886	1,976	(2,894)
Ffloedd Archwilio Cymru	0	0	30,000	30,000	0	0	26,482	26,482	(3,518)
Ymgynghorwyr allanol	132,500	66,340	10,000	208,840	0	127,572	8,805	136,377	(72,463)
Yswiriant	15,000	15,000	30,000	60,000	1,701	848	2,767	5,316	(54,684)
Systemau	4,770	5,960	14,310	25,040	0	0	0	0	(25,040)
Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau	157,580	90,330	94,840	342,750	2,408	130,121	74,852	207,381	(135,369)
Gwasanaethau Cefnogol									
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (yn cynnwys Swyddog Adran 151)	11,630	10,920	47,100	69,650	9,914	4,756	21,238	35,908	(33,742)
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	12,940	12,940	27,330	53,210	2,412	2,412	7,237	12,061	(41,149)
Cefnogaeth Democratiaeth	14,220	17,770	42,650	74,640	11,615	9,046	44,447	65,108	(9,532)
Gwasanaethau Corfforaethol	4,750	4,920	12,710	22,380	4,991	3,925	22,179	31,095	8,715
Technoleg Gwybodaeth	3,210	1,380	5,690	10,280	918	918	4,229	6,065	(4,215)
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol	46,750	47,930	135,480	230,160	29,850	21,057	99,330	150,237	(79,923)
Costau sefydlu									
Cyfreithiol a Democratiaeth	0	0	50,000	50,000	24,020	24,020	33,451	81,491	31,491
Ymgynghorwyr Allanol	0	0	72,000	72,000	28,215	28,215	132,570	189,000	117,000
Cyfanswm Costau sefydlu	0	0	122,000	122,000	52,235	52,235	166,021	270,491	148,491
Cyfanswm Cyllideb Gwariant	431,500	251,630	784,090	1,467,220	193,718	264,704	615,603	1,074,025	(393,195)
Llywodraeth Cymru - Grant Cynllunio Datblygu Strategol	0	0	0	0	(200,000)	0	0	(200,000)	(200,000)
Llywodraeth Cymru - Grant Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	0	0	0	0	0	(200,000)	0	(200,000)	(200,000)
Llywodraeth Cymru - Grant CBC	0	0	0	0	0	0	(200,000)	(200,000)	(200,000)
Llog	0	0	0	0	0	0	(74,219)	(74,219)	(74,219)
Cyfraniad o gronfa	(56,460)	(67,450)	(440,830)	(564,740)	(56,460)	(67,450)	(440,830)	(564,740)	0
Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net	375,040	184,180	343,260	902,480	(62,742)	(2,746)	(99,446)	(164,994)	(1,067,414)

	Cynllunio Strategol	Swyddogaethau eraill	Cyfanswm Ardoll		Cynllunio Strategol	Swyddogaethau eraill	Cyfanswm Ardoll	Gwahaniaeth
Incwm	(£)	(£)	(£)		(£)	(£)	(£)	(£)
Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll								
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(59,630)	(87,190)	(146,820)		(59,630)	(87,190)	(146,820)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(52,660)	(74,050)	(126,710)		(52,660)	(74,050)	(126,710)	0
Cyngor Sir y Fflint	(84,450)	(118,820)	(203,270)		(84,450)	(118,820)	(203,270)	0
Cyngor Gwynedd	(53,860)	(90,830)	(144,690)		(53,860)	(90,830)	(144,690)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(37,540)	(52,800)	(90,340)		(37,540)	(52,800)	(90,340)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(73,770)	(103,750)	(177,520)		(73,770)	(103,750)	(177,520)	0
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)	(13,130)		(13,130)		(13,130)		(13,130)	0
Cyfanswm Cyllideb Incwm	(375,040)	(527,440)	(902,480)		(375,040)	(527,440)	(902,480)	0

Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31/03/25	1,112,671
Cyllideb 2025/26	(564,740)
Parth Buddsoddi	20,662
Tanwariant 2025/26	1,067,414
Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 31/03/26	1,636,007

Gwariant	Cyllideb Sylfaenol (£)	Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth (£)	Cyfanswm Cyllideb (£)	Sefyllfa Terfynol 2025/26 (£)	Gor / (Tan)wariant (£)
Swyddfa Rheoli Portffolio					
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	1,558,280	0	1,558,280	902,909	(655,371)
Rolau Llywodraeth Ychwanegol	206,320	0	206,320	79,162	(127,158)
Ymgynghorydd Allanol	0	0	0	22,677	22,677
Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr	2,500	0	2,500	23,432	20,932
Teithio a Chynhaliath	10,000	0	10,000	5,464	(4,536)
Hyfforddiant	18,000	0	18,000	(577)	(18,577)
Ymgysylltu a Chyfarfodydd	10,000	0	10,000	4,889	(5,111)
Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus	25,000	0	25,000	23,060	(1,940)
Cyflenwadau a Gwasanaethau	15,000	0	15,000	26,610	11,610
Eiddo	36,000	0	36,000	30,094	(5,906)
Datblygu Portffolio a Rhaglenni	30,000	0	30,000	21,000	(9,000)
Yswiriant	4,130	0	4,130	15,930	11,800
Systemau	9,540	0	9,540	8,902	(638)
Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio	1,924,770	0	1,924,770	1,163,552	(761,218)
Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol					
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid	113,330	0	113,330	65,108	(48,222)
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	44,980	0	44,980	20,263	(24,717)
Cefnogaeth Democratiaeth	28,430	0	28,430	25,697	(2,733)
Gwasanaethau Corfforaethol	48,350	0	48,350	45,509	(2,841)
Technoleg Gwybodaeth	28,440	0	28,440	24,897	(3,543)
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol	263,530	0	263,530	181,474	(82,056)
Cyd-bwyllgor					
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	18,000	0	18,000	13,116	(4,884)
Ffioedd Cyllidol Allanol	10,000	0	10,000	2,428	(7,572)
Ffi Archwilio Allanol	28,350	0	28,350	28,350	0
Bwrdd Cyflawni Busnes	15,000	0	15,000	0	(15,000)
Cyfanswm Cyd-bwyllgor	71,350	0	71,350	43,894	(27,456)
Prosiectau					
Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau	150,000	0	150,000	70,095	(79,905)
Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol	150,000	0	150,000	187,114	37,114
Cefnogaeth Gyllidol Allanol	50,000	0	50,000	810	(49,190)
Cefnogaeth Caffael Allanol	50,000	0	50,000	0	(50,000)
Sicrwydd	50,000	0	50,000	10,890	(39,110)
Cyflawni Prosiectau	0	0	0	24,188	24,188
Cyflawni Prosiectau - Gweithwyr	0	0	0	215,607	215,607
Cyfanswm Prosiectau	450,000	0	450,000	508,704	58,704
Cynlluniau grant					
Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol	0	80,040	80,040	87,292	7,252
Costau cysylltiedig eraill - Prosiect Ynni Ardal Leol	0	10,310	10,310	2,011	(8,299)
Ymgynghorydd Allanol - Prosiect Ynni Ardal Leol	0	79,920	79,920	80,964	1,044
Cynlluniau Ynni Ardal Lleol	0	6,800	6,800	6,800	0
Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin	0	196,870	196,870	197,216	346
Costau cysylltiedig eraill - Cronfa Ffyniant Gyffredin	0	16,865	16,865	16,449	(416)
Cynlluniau Ffyniant Gyffredin	0	230,515	230,515	198,599	(31,916)
Cyfanswm Cynlluniau grantiau	0	621,320	621,320	589,331	(31,989)
Trosglwyddiadau i gronfeydd					
Cyfraniadau Ilog y Partneriaid	108,380	0	108,380	108,380	0
Tâl at Mynediad Gyllid	0	0	0	24,679	24,679
Llog ar falansau	0	0	0	1,833,295	1,833,295
Cyfanswm trosglwyddiadau i gronfeydd	108,380	0	108,380	1,966,354	1,857,974
Cyfanswm Gwariant	2,818,030	621,320	3,439,350	4,453,309	1,013,959

Sefyllfa Ariannol y Cynllun Twf 2025/26

Atodiad 2

	Cyllideb	Trosglwyddiadau Unwaith ac am byth	Cyfanswm Cyllideb	Sefyllfa Terfynol 2025/26	Gor / (Tan)wariant
Incwm	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cyfraniadau Ariannu					
Cyfraniadau Partneriaid					
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(58,730)	0	(58,730)	(58,730)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(58,730)	0	(58,730)	(58,730)	0
Cyngor Sir y Fflint	(58,730)	0	(58,730)	(58,730)	0
Cyngor Gwynedd	(58,730)	0	(58,730)	(58,730)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(58,730)	0	(58,730)	(58,730)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(58,730)	0	(58,730)	(58,730)	0
Prifysgol Bangor	(29,380)	0	(29,380)	(29,380)	0
Prifysgol Wrecsam	(29,380)	0	(29,380)	(29,380)	0
Coleg Cambria	(29,380)	0	(29,380)	(29,380)	0
Grŵp Llandrillo Menai	(29,380)	0	(29,380)	(29,380)	0
Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol					
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(40,000)	0	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(40,000)	0	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir y Fflint	(40,000)	0	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Gwynedd	(40,000)	0	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(40,000)	0	(40,000)	(40,000)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(40,000)	0	(40,000)	(40,000)	0
Cyfraniadau Ilog y Partneriaid					
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(13,420)	0	(13,420)	(13,420)	0
Cyngor Sir Ddinbych	(11,870)	0	(11,870)	(11,870)	0
Cyngor Sir y Fflint	(18,710)	0	(18,710)	(18,710)	0
Cyngor Gwynedd	(13,730)	0	(13,730)	(13,730)	0
Cyngor Sir Ynys Môn	(8,290)	0	(8,290)	(8,290)	0
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(23,210)	0	(23,210)	(23,210)	0
Prifysgol Wrecsam	(10,070)	0	(10,070)	(10,070)	0
Grŵp Llandrillo Menai	(9,080)	0	(9,080)	(9,080)	0
Eraill					
Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru	(1,350,000)	0	(1,350,000)	(1,350,000)	0
Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru (Prosiectau)	(116,675)	0	(116,675)	(239,795)	(123,120)
Cyfalafu Costau Staff	(60,000)	0	(60,000)	0	60,000
Grant Ynni Llywodraeth Cymru	0	(177,070)	(177,070)	(177,067)	3
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG	0	(444,250)	(444,250)	(412,264)	31,986
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru	0	0	0	(1,036)	(1,036)
Tâl at Mynediad Gyllid	0	0	0	(24,679)	(24,679)
Llog ar falansau	0	0	0	(1,833,295)	(1,833,295)
Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi	(60,990)	0	(60,990)	(60,990)	0
Cronfa Adnoddau	(412,085)	0	(412,085)	(79,162)	332,923
Cyfanswm Incwm	(2,818,030)	(621,320)	(3,439,350)	(4,996,568)	(1,557,218)
Gor / (Tan) wariant Net	0	0	0	(543,259)	(543,259)

	£
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2025	(210,977)
Defnydd yn 2025/26	0
Cyfanswm y gronfa wrth gefn ar 31 Mawrth 2026	(210,977)

	£
Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2025	(29,167)
Trosglwyddiad i mewn yn 2025/26	(123,133)
Cyfanswm y gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2026	(152,300)

	£
Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2025	(4,733,483)
Cyfraniadau 2025/26	(108,380)
Tâl at fynediad cyllid	(24,679)
Llog ar falansau 2025/26	(197,746)
Cyfanswm y gronfa llog ar 31 Mawrth 2026	(5,064,288)

	£
Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2025	(2,800,231)
Defnydd yn 2025/26	79,162
Llog ar falansau 2025/26	(1,635,549)
Cyfanswm y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2026	(4,356,618)

Rhaglen	Prosiect	Ariannwr y Prosiect	2021/22 (£m)	2022/23 (£m)	2023/24 (£m)	2024/25 (£m)	2025/26 (£m)	2026/27 (£m)	2027/28 (£m)	2028/29 (£m)	2029/30 (£m)	2030/31 (£m)	2031/32 (£m)	2032/33 (£m)	2033/34 (£m)	2034/35 (£m)	Cyfanswm (£m)
Digidol	Canolfan Prosesu Signal Digidol	Prifysgol Bangor	0.12	1.66	0.37	0.00	0.43	0.38	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96
Digidol	4G+ (Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	0.00	0.19	1.92	2.35	1.57	0.14	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	6.17
Digidol	LPWAN (Campws Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	0.00	0.02	0.65	0.43	0.00	0.00	0.00	0.02	0.02	0.00	0.00	1.14
Digidol	Di-Wifr Uwch (Campws Cysylltiedig)	Uchelgais Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	0.00	0.01	2.08	6.76	8.56	2.13	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	19.54
Ynni carbon isel	Cydneth (Morlais)	Menter Môn	0.00	0.00	0.00	0.00	8.87	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	8.87
Ynni carbon isel	Egni	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.94	1.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	3.94
Ynni carbon isel	Ynni Lleol Glân	Uchelgais Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	0.00	0.46	5.00	6.95	6.20	6.02	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	24.63
Ynni carbon isel	Hwb Hydrogen Caergybi	Menter Môn	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	1.80	2.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	3.80
Ynni carbon isel	Canolfan Arloesi, Busnes a Sgiliau Trawsfynydd	Cyngor Gwynedd	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.20	7.80	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	10.00
Tir ac eiddo	Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych	NWH Ltd (Jones Bros)	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.00	4.94	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	6.94
Tir ac eiddo	Safle Strategol Parc Bryn Cegin	Uchelgais Gogledd Cymru	0.00	0.00	0.00	0.00	0.29	5.20	2.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	7.49
Tir ac eiddo	Porth Wrecsam	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	4.89	4.90	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	9.79
Tir ac eiddo	Safleoedd ac Adelladau Gogledd Môn	Cyngor Sir Ynys Môn	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	3.32	3.68	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	7.00
Tir ac eiddo	Porth y Porthladd Rhydd	Cyngor Sir Ynys Môn	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	1.70	1.78	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	3.48
Tir ac eiddo	Ysgol Fusnes Albert Gubay	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	4.98	2.32	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	7.30
Tir ac eiddo	Padeswood	Trafnidiaeth Cymru / Network Rail	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.40	4.30	3.60	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	10.30
Tir ac eiddo	Porthladd Mostyn	Part of Mostyn	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	4.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	4.00
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol	Prifysgol Bangor	0.00	0.00	0.00	0.58	1.48	0.90	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.96
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Canolfan Opteg a Pheiranneg Menter	Prifysgol Wrecsam	0.00	0.00	0.75	9.06	1.30	0.88	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	11.99
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Cymdeithas 5.0	Prifysgol Wrecsam	0.00	0.00	0.00	0.00	0.21	1.29	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	1.50
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Prosiect Prince	Knauf	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.20	12.20	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	14.40
Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel	Porth Busnes	Prifysgol Wrecsam	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.64	4.60	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	7.24
Bwyd-amaeth a thwrstiaeth	Hwb Economi Wledig Glynllifon	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	5.87	3.79	2.16	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	11.82
Bwyd-amaeth a thwrstiaeth	Rhwyrddwaith Talent Twristiaeth	Grŵp Llandrillo Menai	0.00	0.00	0.00	1.00	1.20	1.15	1.08	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	4.43
Bwyd-amaeth a thwrstiaeth	Anturiaethau Cyfrifol	Zip World	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.71	1.49	2.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	6.20
Bwyd-amaeth a thwrstiaeth	Venue Cymru	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.25	2.44	2.31	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	5.00
Prosiectau Rhestr Wrth Gefn			0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	2.50	5.00	5.00	5.00	5.00	5.00	2.50	1.96	31.96
Is-gyfanswm Prosiectau			0.12	1.66	1.12	10.64	14.46	56.26	73.70	44.10	13.29	5.00	5.02	5.02	2.50	1.96	234.85
2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refereniw y Cynllun Twf			0.22	0.28	0.56	0.71	0.87	1.14	0.50	0.30	0.15	0.10	0.10	0.10	0.07	0.05	5.15
Cyfanswm Rhaglen			0.34	1.94	1.68	11.35	15.33	57.40	74.20	44.40	13.44	5.10	5.12	5.12	2.57	2.01	240.00
Cyllideb wedi ei chymeradwyo (Chwefror 2025)			0.34	1.94	1.68	12.51	29.61	40.86	59.28	42.58	22.45	8.10	8.20	7.33	5.07	0.05	240.00
Gwahaniaeth			0.00	0.00	0.00	-1.16	-14.28	16.54	14.92	1.82	-9.01	-3.00	-3.08	-2.21	-2.50	1.96	0.00
Gwariant cronrus			0.34	2.28	3.96	15.31	30.64	88.04	162.24	206.64	220.08	225.18	230.30	235.42	237.99	240.00	240.00

* Mae'r profffil uchod yn cynnwys gwariant ar gyfer y prosiectau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn yr alltra refereniw: £0.06m Ynni Lleol Glân, £0.15m 4G+, £0.02m LPWAN a £0.01m Di-Wifr Uwch

	Cyllideb	Sefyllfa Terfynol 2025/26	Gorwaraint / (Tanwariant)
	(£)	(£)	(£)
Gwariant			
Gweithwyr			
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	0	51,839	51,839
Cyfanswm Gweithwyr	0	51,839	51,839
Cyflenwadau a gwasanaethau			
Cyflenwadau amrywiol	0	21	21
Ymgysylltu a chyfarfodydd	0	436	436
Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau	0	457	457
Gwasanaethau Cefnogol			
Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid (yn cynnwys Swyddog Adran 151)	0	4,840	4,840
Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro)	0	24,363	24,363
Gwasanaethau Corfforaethol	0	441	441
Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol	0	29,644	29,644
Costau sefydlu			
Parth Buddsoddi	180,000	131,834	(48,166)
Cyfanswm Costau sefydlu	180,000	131,834	(48,166)
Gwariant Sir y Fflint a Wrecsam			
Gwariant Sir y Fflint a Wrecsam	0	230,220	230,220
Cyfanswm gwariant Sir y Fflint a Wrecsam	0	230,220	230,220
Trosglwyddiad i gronfa			
Trosglwyddiad i gronfa y CBC	0	20,662	20,662
Cyfanswm trosglwyddiad i gronfa	0	20,662	20,662
Cyfanswm Cyllideb Gwariant	180,000	464,656	284,656
Llywodraeth Cymru - Parth Buddsoddi	0	(25,000)	(25,000)
Grant Parth Buddsoddi	(180,000)	(430,220)	(250,220)
Llog	0	(9,436)	(9,436)
Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net	0	0	0

Sefyllfa Ariannol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol 2025/26

Atodiad 6

	Cyllideb	Sefyllfa Terfynol 2025/26	Gor / (Tan)wariant
Gwariant	(£)	(£)	(£)
Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal)	209,900	211,777	1,877
Teithio a Chynhaliaeth	1,500	3,399	1,899
Cyflenwadau a Gwasanaethau	45	3,438	3,393
'Light Cast' a 'Data City'	10,000	12,875	2,875
Gwefan	10,000	9,000	(1,000)
Eiddo	12,000	9,965	(2,035)
Cynlluniau Sgiliau - Gwaith Gwybodaeth Marchnad Llafyr	12,660	12,736	76
Dyraniad Grwpiau Clwstwr	1,395	15	(1,380)
Porth Sgiliau	10,000	9,926	(74)
Digwyddiadau a Chyfarfodydd	19,500	5,410	(14,090)
Marchnata a Chyfathrebu	15,000	11,459	(3,541)
Cyfanswm Gwariant	302,000	290,000	(12,000)
Incwm	(£)	(£)	(£)
Grant Llywodraeth Cymru	(290,000)	(290,000)	0
Cronfa wrth Gefn	(12,000)	0	12,000
Cyfanswm Incwm	(302,000)	(290,000)	12,000
Gor / (Tan) wariant Net	0	0	0



IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

4 Mehefin 2026

TEITL: Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd– Cynllun Archwilio Allanol 2026

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC)
Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu Cynllun Archwilio Allanol 2026 Archwilio Cymru ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 I nodi a rhoi sylwadau ar Gynllun Archwilio Allanol 2026 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Bydd Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfod yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno'r Cynllun Archwilio Allanol ar gyfer 2026 a bydd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu yn dilyn proses gynllunio strwythuredig a seiliedig ar risg. Mae'n cwmpasu'r gwaith archwilio ariannol a pherfformiad.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Y ffi archwilio amcangyfrifedig i gynnwys yr archwiliad o'r datganiadau ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad ar gyfer 2026/27 yw £69,832. Mae'r CBC wedi neilltuo cyllid ar gyfer y gwaith hwn yng Nghyllideb 2026/27. Amcangyfrifir hefyd ffi o £25,000 ar gyfer gwaith perfformiad archwilio ar gyfer 2025/26. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adran "Ffi archwilio" o'r cynllun yn Atodiad 1.

6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

6.1 Mae swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi cael cyfle i gyflwyno eu sylwadau ar y cynllun cyn iddo gael ei gyflwyno i'r pwyllgor.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1 Mae'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2026 yn nodi cyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol y CBC.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru – Cynllun Archwilio Allanol 2026

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i.

Swyddog Monitro:

Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol ychwanegol yn codi o'r adroddiad blaen hwn. Mae'r Cynllun Archwilio Allanol yn rhan o fframwaith llywodraethu a sicrwydd statudol ehangach y CBC. Bydd angen i'r Is-bwyllgor ystyried a yw'r dull arfaethedig yn glir ac yn ddigonol i gefnogi goruchwyliaeth ac atebolrwydd effeithiol.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.

Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru– Cynllun Archwilio 2026

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2026



Cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein nodau a'n huchelgeisiau	5
Gwaith archwilio ariannol	6
Gwaith archwilio perfformiad	14
Swyddogaethau archwilio statudol eraill	17
Ffi archwilio	18
Tîm archwilio	20
Ansawdd archwilio	22
Rhagor o wybodaeth	23

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun gan ddilyn proses gynllunio strwythuredig a seiliedig-ar-risg, a fydd yn parhau trwy gydol yr archwiliad. Mae fy [Nghod Ymarfer Archwilio](#) yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut y dylai fy swyddogaeth archwilio a rhai swyddogaethau penodol eraill gael eu cyflawni gan fy archwilwyr.

Wrth graidd ein holl waith mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell sicrwydd (tudalen 22) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau ansawdd hynny'n cael eu

cyrraedd. Mae ein [hadroddiad ansawdd blynyddol](#) diweddaraf yn darparu rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.


Bydd fy nhîm archwilio'n gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion yr ydych yn eu hwynebu, sicrhau bod y broses archwilio'n gweithredu mor esmwyth â phosibl, a darparu mewnwelediadau gwerthfawr ynglŷn ag unrhyw feysydd ar gyfer gwella.

Mae fy rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol, fel a amlinellir yn y Cynllun hwn, yn eistedd ochr yn ochr â [gwaith archwilio cenedlaethol](#) arall a all gynnwys gwaith sy'n ymwneud â'ch sefydliad chi. Gall gwaith archwilio perfformiad lleol oleuo adroddiadau cenedlaethol ehangach hefyd.


Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch archwiliad bydd fy nhîm archwilio'n hapus i'w trafod gyda chi. Byddant hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ichi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Ein nodau a'n huchelgeisiau


Ein diben



Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda




Esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario




Ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella


Ein gweledigaeth




Manteisio'n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a'n dyfnder unigryw ar fewnwelediad



Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol




Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad a pherthnasedd




Bod yn sefydliad sy'n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt


Ein meysydd ffocws



Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel



Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu



Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein [Cynllun Blynyddol 2025-26](#) a hefyd Ein [Strategaeth 2022-27](#).

Gwaith archwilio ariannol

Archwilio'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol chi sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'cywirdeb a thegwch' a'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu a gofynion cyfreithiol.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

Mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am ymateb i gwestiynau am y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os yw'n angenrheidiol).

Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

Perthnasedd y datganiadau ariannol

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn gymwys nid dim ond i gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu ac ymlyniad wrth y fframwaith cyfrifyddu perthnasol a'r gyfraith.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad er mwyn:

- pennu'r lefel o gamddatganiad a allai beri i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- rhoi cymorth i bennu cwmpas ein dull archwilio a phroffion archwilio canlyniadol;
- pennu meintiau samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; a

- hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchlaw lefel ddibwys, ein trothwy hysbysu.

Caiff y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi isod.

Perthnasedd cynllunio

2% o wariant gros yw hyn yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol archwiliedig y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) 2024/25.

£271,000

Trothwy hysbysu (dibwys)

lefel perthnasedd o 5% yw hyn.

£14,000

Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf o gyfrifon llawn ar gyfer CBC Gogledd Cymru, mae'r lefel perthnasedd wedi'i phennu ar sail dros dro gan ddefnyddio gwariant gros y flwyddyn flaenorol y BUEGC, gan ddisgwyl y bydd hyn yn cynrychioli cyfran sylweddol o weithgarwch ariannol y CBC Gogledd Cymru. Caiff y lefelau perthnasedd eu hadolygu ar ôl derbyn y cyfrifon drafft.

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

£1,000

Datgeliadau partïon cysylltiedig

£10,000

Bydd fy nhîm archwilio'n asesu lefelau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad.

Risgiau arwyddocaol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol

Mae risgiau arwyddocaol yn golygu risgiau o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg gynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg arwyddocaol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i'r risgiau arwyddocaol hyn.

Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a
- gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.

Pontio i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru

Ym mis Mehefin 2022, cymerodd CBC Gogledd Cymru ei swyddogaethau, gyda threfniadau blaenorol y BUEGC yn trosglwyddo iddo ar 1 Ebrill 2025. Mae'r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gynnwys datgeliadau ychwanegol ac adlewyrchu trosglwyddo balansau a data o'r corff blaenorol.

O ganlyniad, mae risg uwch na fydd gofynion adrodd yn cael eu cydymffurfio'n llawn, neu na fydd trosglwyddo gwybodaeth yn cael ei gyflawni'n gyflawn, neu na fydd y wybodaeth wedi'i chwblhau'n gywir. Os na chaiff hyn ei reoli'n briodol, gallai arwain at gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- ymgysylltu â swyddogion cyllid yn ystod y broses o baratoi'r cyfrifon i drafod newidiadau arfaethedig i ofynion datgelu;
- asesu pob datgeliad yn erbyn Cod CIPFA a'r Rhestr Wirio Datgeliadau i nodi unrhyw ofynion sydd ar goll neu'n anghywir;
- cynnal profion manwl ar ddatgeliadau newydd i gadarnhau eu bod yn gyflawn a bod y driniaeth gyfrifyddu sylfaenol yn gywir; ac
- archwilio balansau agoriadol cyfrifon y CBC Corfforedig Gogledd Cymru, gan gynnwys adolygiad o'r gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo balansau o drefniadau blaenorol y BUEGC.

Meysydd eraill y bydd ffocws arnynt

Rwy'n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd sydd, er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau arwyddocaol fel uchod, yn rhai yr hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

Prisio rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth/gwarged cronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd amcangyfrif yn perthyn iddo, gan ei fod yn sensitif i addasiadau bychain yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth/gwarged.

Cynhaliwyd prisiad teirblynyddol o'r cynllun ar 31 Mawrth 2025, a fydd yn effeithio ar ddatgeliadau yn natganiadau ariannol CBC Gogledd Cymru, am y tro cyntaf ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Ceir risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged wedi ei gamddatgan yn berthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- yn asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a wnaeth y prisiadau;
- yn asesu cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a ddarparwyd gan y CBC Gogledd Cymru ar gyfer yr actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;
- yn profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiw yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;
- yn asesu rhesymoldeb y tybiaethau a wnaed gan yr actiwari trwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chyflawni unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol; ac
- yn cynnal rhaglen o waith i ddarparu sicrwydd ynghylch y data a ddefnyddiwyd gan yr actiwari i gynnal y prisiad teirblynyddol.

Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

Mae cydnabyddiaeth ariannol a delir i uwch swyddogion o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran ei natur.

Mae risg, yn dilyn trosglwyddo'r BUEGC i CBC Gogledd Cymru, na fydd strwythur yr uwch swyddogion yn cael ei ddatgelu'n llawn nac yn briodol yn y datganiadau ariannol.

Felly, ceir risg y gallai gwallau gwerth isel hyd yn oed yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn deall strwythur y tîm uwch reolwyr sydd ar waith yn ystod 2025-26;
- yn sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol;

- yn sicrhau bod symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan y CBC Gogledd Cymru; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodiadau a'r balansau rhwng CBC Gogledd Cymru a'r corff/parti arall.

Mae gan CBC Gogledd Cymru nifer o berthnasoedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn dra hysbys, er enghraifft Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynglŷn â'r perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac ystyrir eu bod yn berthnasol o ran eu natur.

Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed lle mae gwerth y rhain yn gymharol fach.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn adolygu proses ar gyfer adnabod perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- yn cyflawni gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd partïon cysylltiedig; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Prydlesi

Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf o gyfrifon llawn ar gyfer datganiadau ariannol CBC Gogledd Cymru yn dilyn trosglwyddo'r BUEGC ar 1 Ebrill 2025, mae risg nad yw trefniadau les wedi'u nodi'n llawn na'u hasesu'n briodol o dan ofynion safon ddiwygiedig SAAR 16 'Cyfrifyddu am Prydlesi' (SAAR16). Gall contractau sy'n cynnwys prydlesi gael eu hepgor neu eu dosbarthu'n anghywir. Gallai hyn arwain at gamddatganiad perthnasol

oherwydd cydnabyddiaeth, mesur a datgelu anghyflawn neu anghywir, o asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau les cyfatebol yn y datganiadau ariannol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- cael dealltwriaeth o broses y rheolwyr ar gyfer adnabod prydles;
- adolygu papurau gwaith CBC Gogledd Cymru i sicrhau bod pob prydles sy'n dod o fewn SAAR16 wedi'i chynnwys yn y cyfrifiadau;
- profi sampl o gyfrifiadau asedau a rhwymedigaeth i sicrhau bod y rhagdybiaethau'n rhesymol, a bod cyfrifiadau wedi'u paratoi'n gywir; a
- chadarnhau bod gwerthoedd asedau a rhwymedigaeth wedi'u cyfrif yn gywir a'u datgelu yn y datganiadau ariannol.

Cydnabod Trefniant Cydweithredol Newydd

Aeth CBC Gogledd Cymru i drefniant cydweithredol newydd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu prosiect, lle mae Llywodraeth Cymru yn darparu tir, ac mae CBG Gogledd Cymru yn darparu cyllid.

Gan nad yw CBC Gogledd Cymru yn ymgymryd â'r math hwn o drefniant ar hyn o bryd, mae risg nad yw wedi'i asesu a'i gyfrifo yn briodol yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Gall hyn arwain at gydnabod, dosbarthu neu ddatgelu asedau, rhwymedigaethau neu fuddiannau yn y trefniant yn anghywir o fewn y datganiadau ariannol.

Ein hymateb arfaethedig

Bydd fy nhîm archwilio:

- cael ac adolygu'r cytundeb ffurfiol ar gyfer y prosiect i ddeall rolau, cyfrifoldebau a hawliau pob parti;
- asesu a yw'r trefniant yn bodloni'r diffiniad o fenter ar y cyd o dan y fframwaith cyfrifyddu perthnasol;
- asesu sut y dylid cydnabod unrhyw ased, rhwymedigaeth neu fuddiant yn y prosiect; a
- gwirio cyfrifiadau a data ategol ar gyfer unrhyw symiau a gydnabyddir.

Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Isod ceir amserlen sy'n dangos camau allweddol yr archwiliad a'n canlyniadau archwilio allweddol y byddwn yn eu darparu ar eich cyfer.

Arddangosyn 1: Amserlen archwilio'r datganiadau ariannol

Cynllunio	Cyfarfod cynllunio Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel Asesu'r risg o dwyll Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu Asesu risg yn yr amgylchedd TG Ffi archwilio ddangosol Cynllun Archwilio
Mawrth i Mai 2026	
Gwaith maes	Diweddarau'r asesiad risg Archwiliad o'r datganiadau ariannol gan gynnwys yr adroddiad naratif a'r datganiad llywodraethu blynyddol Cwblhau profion archwilio Gwerthuso'r canfyddiadau archwilio Cyfarfod cau'r archwiliad
Gorffennaf i Fedi 2026	
Adrodd	Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon Argymhellion ar gyfer gwella Cyflwyno'r canfyddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu Ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol
Medi 2026	
Ôl-ardystio	Crynodeb Archwilio Blynyddol Dysgu ar ôl y prosiect








Gwaith archwilio perfformiad

Trefniadau priodol

Fel a nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio, rhaid i mi fy argyhoeddi fy hun bod CBC Gogledd Cymru wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau ('gwerth am arian'), a llunio casgliadau yn unol â hynny.

Rwy'n gwneud hyn trwy gynnal rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn. Rwy'n seilio fy rhaglen waith ar asesiad o risgiau nad oes gan CBC Gogledd Cymru a'r sector Llywodraeth Leol ehangach yng Nghymru'r trefniadau priodol, gyda'r gwaith yn canolbwyntio fel arfer ar y meysydd lle ceir y risg fwyaf.

Wrth ddylunio'r rhaglen, rhaid i'm harchwilwyr fod wedi ystyried trefniadau ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau, gan gynnwys:

-  Cynllunio strategol
-  Rheoli asedau
-  Cynllunio ariannol
-  Gweithio ar y cyd
-  Rheoli perfformiad a risg
-  Llywodraethu cyffredinol
-  Cynllunio'r gweithlu

Bydd fy archwilwyr hefyd wedi ystyried gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud neu ei gynllunio gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill yn CBC Gogledd Cymru.

Rwy'n gwneud fy ngwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio'r safon ISSAI 3000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI. Corff anllywodraethol ydyw a

chanddo statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Diffinnir yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** fel ymddwyn mewn modd...

...sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried y **'pum dull o weithio'**.



Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithio



Cynnwys

Rhaid i mi gynnal yr archwiliadau hyn ym mhob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf o leiaf unwaith yn ystod cyfnod penodedig.

Gallai'r rhain fod yn archwiliadau unigol fel rhan o'm rhaglen archwilio perfformiad. Fodd bynnag, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol gwneud hynny, bydd fy archwilwyr yn integreiddio'r gwaith sy'n ofynnol fel rhan o waith archwilio perfformiad arall sydd yn yr arfaeth ar gyfer CBC Gogledd Cymru. Bydd fy archwilwyr yn parhau i ymgysylltu'n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i helpu i gydlynu ein priod weithgareddau.

Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig 2025-26

Rwy'n nodi isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau ar gyfer 2025-26.

Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

Yr amcan ar gyfer yr archwiliad hwn yw asesu a yw CBC Gogledd Cymru wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau cynllunio trafndiaeth ranbarthol statudol a darparu gwerth am arian. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar a yw ei drefniadau cynllunio, adnoddau a rheoli perfformiad yn gweithredu fel y bwriadwyd.

Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig 2026-27

Yn y cynllun hwn byddaf hefyd yn nodi isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau ar gyfer 2026-27. Ochr yn ochr â'm gwaith byddaf yn cynnal asesiad risg ehangach i gwmpasu'r holl drefniadau arwyddocaol i gynllunio rhaglenni gwaith yn y dyfodol yn CBC Gogledd Cymru.

Cynllun Datblygu Strategol

Fy amcan ar gyfer yr archwiliad hwn yw asesu a yw CBC Gogledd Cymru wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau cynllun datblygu strategol statudol a darparu gwerth am arian. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar a yw ei drefniadau cynllunio, adnoddau a rheoli perfformiad yn gweithredu fel y bwriadwyd.

Amseriad Gwaith Archwilio Perfformiad

Bydd fy nhîm yn gweithio gyda swyddogion yn CBC Gogledd Cymru i drefnu'r amserlenni penodol ar gyfer y prosiectau unigol a bydd gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n rheolaidd trwy ein rhaglen waith a'n amserlen a'n diweddariad canol blwyddyn dilynol. Mae fy archwilwyr yn anelu at gwblhau'r gwaith archwilio a nodir yn y cynllun hwn yn sylweddol erbyn diwedd mis Mehefin 2027.

Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau mewn archwiliad.

Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffi isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Swyddog Cyllid Statudol y CBC.

Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2026, fe gyhoeddom ni ein [Cynllun Ffioedd 2026-27](#).

Mae'r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu'n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ond ar swm y gwaith a'r cymysgedd o sgiliau sy'n ofynnol. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i ffioedd fod yn fwy na chost lawn cyflawni'r gwaith archwilio. Isod, rwy'n nodi ein ffi amcangyfrifedig i gwblhau'r archwiliadau.

Bydd cynllunio'n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i'm rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i'm harchwilwyr fod wedi eu trafod gyda'r Swyddog Cyllid Statudol y CBC yn gyntaf. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi dadansoddiad pellach o'r ffi archwilio a amcangyfrifir ar eich cyfer.

Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf y mae angen archwiliad llawn, nid oes unrhyw gostau cymharol wedi'u cynnwys. Mewn blwyddyn nodweddiadol, cyhoeddir y cynllun archwilio perfformiad yn rhagolygol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (2026-27). Fodd bynnag, roedd angen i mi hefyd gwblhau gwaith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau ar gyfer 2025-26. Y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2025-26 yw £20,000. Mae'r ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2026-27 yn uwch, gan adlewyrchu'r angen i gynnal asesiad risg ehangach sy'n cwmpasu'r holl drefniadau arwyddocaol fel rhan o'n rhaglen waith.

Rwy'n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:

- Bod y canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi'r gofynion disgwylidig o ran papurau gwaith i ategu'r datganiadau ariannol ac yn cynnwys graddfeydd amser a chyfrifoldebau.
- Bod gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol yn cael eu hateb gan y corff a archwilir, neu fod trefniadau eraill addas yn cael eu rhoi ar waith sy'n bodloni anghenion fy nhîm archwilio.
- Nad oes unrhyw faterion arwyddocaol, heblaw fel a grynhoir yn y cynllun hwn, yn cael eu hadnabod yn ystod yr archwiliad.

Arddangosyn 2: Dadansoddiad o'm ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2026

Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2026 (£)¹

Archwilio'r datganiadau ariannol ²	Gwaith archwilio perfformiad ³
£34,832	£35,000
Cyfanswm y ffi: £69,832	

¹ Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.

² Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Hydref 2026

³ Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027.

Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio'n parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd peth gwaith ar safleoedd lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Mae gan gyrff a archwilir gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan ydynt yn eich mangreoedd.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: Fy nhîm archwilio lleol

Cyfarwyddwr Ymgysylltu

Matthew Edwards
matthew.edwards@archwilio.cymru

Archwilio Ariannol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards
matthew.edwards@archwilio.cymru

Archwilio Perfformiad

Gary Emery
gary.emery@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

Yvonne Thomas
yvonne.thomas@archwilio.cymru

Carwyn Rees
carwyn.rees@archwilio.cymru

Arweinydd Archwilio

Sara Leahy
sara.leahy@archwilio.cymru

Uwch Archwilydd

Siwan Glyn
siwan.glyn@archwilio.cymru

Mae un bygythiad i annibyniaeth y mae angen i mi ei dynnu i'ch sylw, yn ymwneud â'r Rheolwr Archwilio sy'n adnabod aelod o Fwrdd Portffolio CBC Gogledd Cymru. Nid yw rôl y Rheolwr Archwilio yn gofyn am unrhyw gyswilt uniongyrchol â'r aelod y tu allan i gyfarfodydd y pwyllgor, a bydd mesurau diogelwch priodol yn cael eu gweithredu i reoli unrhyw wrthdaro posibl. Ar wahân i hyn, gallaf gadarnhau bod holl aelodau eraill fy nhîm yn annibynnol ar o Fwrdd Portffolio CBC Gogledd Cymru.

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein [gwefan](#) i ganfod:



Ein [cyhoeddiadau](#) sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer [archwilio perfformiad](#).



[Offer data](#) i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau [Arfer Da](#) gan gynnwys rhannu arfer a mewnwleidiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein [cylchlythyr](#) sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

